

Plant hŷn a phobl ifanc mewn achosion gofal yng Nghymru a Lloegr

Awduron

Alice Roe

Bachar Alrouh

Linda Cusworth

Dyma'r cyntaf mewn cyfres o adroddiadau am blant a phobl ifanc 10 i 17 oed yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Mae'n rhoi'r trosolwg cenedlaethol cyntaf ar blant hŷn a phobl ifanc mewn achosion gofal gan ddefnyddio data gweinyddol gan Cafcass a Cafcass Cymru ym Manc Data SAIL [Cyswllt Gwybodaeth Ddienw Ddiogel] Prifysgol Abertawe, sy'n rhan o'r seilwaith ymchwil cofnodion e-iechyd cenedlaethol i Gymru. Mae'r adroddiad yn cynnig dadansoddiad disgrifiadol o nifer a chyfran y plant a phobl ifanc 10 i 17 oed mewn achosion gofal dros amser, cyfraddau mynychder yng Nghymru a Lloegr, a gwahaniaethau rhanbarthol. Caiff tystiolaeth newydd ei chyflwyno hefyd am nodweddion achosion a chanlyniadau gorchmynion cyfreithiol.

Awduron

Alice Roe, Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Dr Bachar Alrouh, Prifysgol Caerhirfryn/Y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol.

Dr Linda Cusworth, Prifysgol Caerhirfryn/Y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol.

Dyfyniad argymelledig

Roe, A., Alrouh, B., a Cusworth, L. (2021). *Plant hŷn a phobl ifanc mewn achosion gofal yng Nghymru a Lloegr*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Ariannwyd y prosiect hwn gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield, ond safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir ac nid, o reidrwydd, rhai ACT Nuffield na'r Sefydliad.

Hawlfraint © Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2021
100 St John St, London EC1M 4EH Ffôn: 020 7631 0566
Elusen gofrestredig 206601
nuffieldfjo.org.uk | [@NuffieldFJO](https://twitter.com/NuffieldFJO) www.nuffieldfoundation.org | [@NuffieldFound](https://www.facebook.com/NuffieldFound)

Cydnabyddiaethau

Hoffai'r awduron ddiolch i dîm y prosiect yn Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield am ei gyfraniad at ddylunio, cynllunio a diwygio'r adroddiad hwn: Mary Ryan (Cydymaith), Jordan Rehill (Ymchwilydd), Beverley Barnett-Jones (Cyfarwyddwr Cysylltiol Ymarfer ac Effaith), Lisa Harker (Cyfarwyddwr) a Dan Jones (Rheolwr Gwasanaeth, Cyngor Dinas Casnewydd). Hoffem ddiolch hefyd i Dr Lucy Griffiths a Rhodri Johnson, Prifysgol Abertawe/Y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol, am eu cefnogaeth drwy gynorthwyo â mynediad at SAIL a datblygu cysyniad yr astudiaeth. Ni fyddwn wedi gallu llunio'r adroddiad hwn heb gyfraniadau'r unigolion hyn. Hefyd, hoffem ddiolch i'r holl adolygwyr allanol a roddodd sylwadau ar iteriadau cynnar yr adroddiad hwn. Roedd eu sylwadau'n ddefnyddiol dros ben o ran mireinio'r adroddiad a sicrhau ei fod yn hygyrch i ystod o randdeiliaid.

Hoffem gydnabod yr holl ddarparwyr data sy'n trefnu bod data dienw ar gael ar gyfer ymchwil.



**Family Justice
Data Partnership**



SAIL DATABANK



Centre for
Child & Family
Justice Research

**Population Data Science
at Swansea University**



**Medical School
Ysgol Feddygaeth**



**Adolescent Mental Health
DATA PLATFORM**

**Lancaster
University**



Cynnwys

Crynodeb gweithredol	1
Cyd-destun cyfreithiol	12
Canfyddiadau	16
Argymhellion	33
Rhestr achosion.....	36
Cyfeiriadau.....	36
Atodiad A: Methodolog.....	41
Atodiad B: Tablau data ychwanegol.....	46
Appendix C: Data col.....	52

Crynodeb gweithredol

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, bu cydnabyddiaeth gynyddol o'r nifer gynyddol o blant hŷn a phobl ifanc sy'n dod gerbron y llysoedd teulu, ac amrywiaeth a chymhlethdod eu hanghenion. Mae ymateb i'w hanghenion yn cynnig her i'r systemau amddiffyn plant a chyfiawnder teuluol sydd, tan yn ddiweddar, wedi canolbwyntio'n bennaf ar amddiffyn plant iau rhag peryglon yn yr aelwyd.

Plant hŷn a phobl ifanc: Ffocws ar 'y glasoed'

Er bod diffiniadau o'r glasoed yn destun cryn ddadl, fel arfer, ystyrir ei fod yn golygu'r cyfnod sy'n cwmpasu'r trawsnewid o blentyndod i oedolaeth, a'r gyfres o newidiadau biolegol, ymddygiadol, gwybyddol a chymdeithasol sy'n digwydd bryd hynny (Patton et al. 2016).

Dan Ddeddf Plant 1989, mae plentyn yn cael ei ddiffinio fel unrhyw un dan 18 oed. Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn defnyddio'r term 'glaslanc' ar gyfer y rhai rhwng 10 ac 19 oed.

At ddibenion yr ymchwil hon, rydym wedi categorïddio plant a phobl ifanc rhwng 10 a 17 oed fel glaslanciau. Cyfeirir at y rhai rhwng 10 a 14 oed fel 'glaslanciau iau', a'r rhai 15 oed neu'n hŷn fel 'glaslanciau hŷn'.

Er ein bod yn defnyddio'r term 'glaslanciau' wrth gyflwyno canfyddiadau, rydym yn cyfeirio at 'blant hŷn' a 'phobl ifanc' mewn termau cyffredinol, lle bynnag y bo'n bosibl.

Ynglŷn â'r data

Mae'r astudiaeth hon wedi'i seilio ar ddata rheoli achosion electronig a luniwyd fel mater o drefn gan Cafcass a Cafcass Cymru. Mae'r data'n ymwneud â phob achos gofal a.31 yn ymwneud â glaslanciau a ddechreuodd rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2020 yng Nghymru (2,649) a Lloegr (54,509). Roedd y data ar gael yn y Banc Data SAIL [Cyswllt Gwybodaeth Ddiennw Ddiogel] sy'n gwarchod preifatrwydd, sy'n cael ei westeia gan Brifysgol Abertawe (Ford et al. 2009; Lyons et al. 2009; Jones et al. 2014; Jones et al. 2019).

Un o gyfyngiadau allweddol data Cafcass a Cafcass Cymru yw nad yw'n cipio llety gwirfoddol i blant dan a.20 Deddf Plant 1989 ac a.76 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn oherwydd nad yw Cafcass ynghlwm wrth yr achosion hyn. Mae mwyafrif y bobl ifanc yn eu harddegau (70%) yn mynd i ofal o ganlyniad i drefniadau gwirfoddol (Clarke a Penington 2021), ac nid yw sefyllfa'r plant hyn yn cael ei chynnwys yn y data.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig y trosolwg cenedlaethol cyntaf o blant a phobl ifanc 10 i 17 oed (y cyfeirir atynt yn y data a'r dadansoddiad fel 'glaslanciau') sy'n destun

achosion gofal dan Adran 31 Deddf Plant 1989 (a.31 DP 1989) yng Nghymru a Lloegr. Mae'r astudiaeth yn defnyddio data gweinyddol a gasglwyd fel mater o drefn gan y Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Lllys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) a Cafcass Cymru rhwng 2011/12 a 2019/20 yng Nghymru a Lloegr.

Canfyddiadau allweddol

Faint o laslanciau sy'n destun achosion gofal?

Er bod y rhan fwyaf o blant yn rhan o achosion gofal cyn 10 oed, mae nifer y plant hŷn a phobl ifanc (10-17 oed) sy'n destun achosion gofal wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y degawd diwethaf - yn enwedig ymhlith y rhai dros 15 oed (gweler yr isadran isod).

- Yn 2011/12, roedd 3,081 o laslanciau'n destun achosion gofal yn Lloegr. Erbyn 2019/20, roedd y nifer hon wedi cynyddu i 6,013, sef cynnydd o 95%.
- Yng Nghymru, roedd 219 o laslanciau'n destun achosion gofal yn 2011/12, a oedd wedi cynyddu i 323 erbyn 2019/20—sef cynnydd o 47%.

Mae tystiolaeth o gynnydd sylweddol dros ben yn nifer y glaslanciau sy'n destun achosion gofal yn y ddwy flynedd rhwng 2014/15 a 2016/17. Yng Nghymru a Lloegr, cynyddodd y niferoedd dros 20% bob blwyddyn – sef y cynnydd canrannol uchaf a gofnodwyd ar draws y cyfnod a arsylwyd. Roedd hyn yn cyd-fynd â newidiadau ymarferol i drefniadau gofal gwirfoddol a.20 (Lloegr) ac a.76 (Cymru), er mwyn ymateb i bryderon ynghylch y defnydd ohonynt, ac mae'n debyg bod hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer yr achosion hyn a ddaeth gerbron y llys.¹

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, bu mân ostyngiad yn nifer y glaslanciau sy'n destun achosion gofal, sy'n rhan o duedd gyffredinol. Mae angen cynnal dadansoddiad pellach i ddeall a yw hyn yn cynrychioli amrywiad byrdymor i gyfraddau, gostyngiad cyffredinol yn nifer y glaslanciau mewn achosion gofal, neu a yw'r cyfraddau wedi gwastatáu.

A yw glaslanciau'n cyfrif am gyfran lai neu fwy o blant mewn achosion gofal?

Erbyn hyn, mae glaslanciau'n cyfrif am gyfran uwch o blant mewn achosion gofal nag oeddent naw mlynedd yn ôl:

- yn 2011/12, roedd glaslanciau'n cyfrif am 18% o'r holl blant mewn achosion gofal yn Lloegr; erbyn 2019/20, roedd hyn wedi cynyddu i 27%
- yng Nghymru, mae cyfradd y glaslanciau mewn achosion gofal wedi cynyddu o 18% i 23%.

Mae hyn yn cynrychioli newid sylweddol yng Nghymru a Lloegr.

¹ O ganlyniad i gyfraith achosion yn *Re N* [2015].

Faint o laslanciau sydd mewn achosion gofal fel cyfradd o boblogaeth gyffredinol y glasoed?

Mae cyfradd y glaslanciau sy'n destun achosion gofal fesul 10,000 o laslanciau yn y boblogaeth wedi cynyddu dros amser hefyd:

- yn 2011/12, roedd 6.1 o laslanciau fesul 10,000 yn destun achosion gofal yn Lloegr, a gynyddodd i 11.6 fesul 10,000 erbyn 2019/20
- yn 2011/12, roedd 7.5 o laslanciau fesul 10,000 yn destun achosion gofal yng Nghymru, a gynyddodd i 11.5 fesul 10,000 erbyn 2019/20.

Mae cyfraddau'r bobl ifanc mewn achosion gofal yng Nghymru a Lloegr yn debyg iawn, a bu cyfradd cynnydd debyg dros amser. Mae hyn mewn cyferbyniad â thueddiadau yn ymwneud â phlant o oedranau eraill, lle mae cyfraddau yng Nghymru yn uwch nag yn Lloegr.

Mae'r cynnydd yn nifer y glaslanciau sy'n destun achosion gofal wedi digwydd yng nghyd-destun cynnydd cyffredinol yn nifer y plant mewn achosion gofal. Fodd bynnag, **bu'r cynnydd canrannol cyfartalog o un flwyddyn i'r llall yn fwy ar gyfer glaslanciau** na grwpiau oedran iau yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn awgrymu bod y gyfradd cynnydd ar gyfer glaslanciau mewn achosion gofal yn uwch nag ar gyfer grwpiau oedran eraill.

Sut mae'r darlun yn amrywio o un rhanbarth i'r llall?

Gogledd-ddwyrain Lloegr sydd â chyfradd uchaf y glaslanciau sy'n destun achosion gofal o bell ffordd, gyda'r gwahaniaeth hwn yn dod yn amlwg iawn o 2014/15 ymlaen. Yn 2019/20, y gyfradd yng ngogledd-ddwyrain Lloegr oedd 26.0 fesul 10,000 o laslanciau, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 11.6 fesul 10,000. Mae rhanbarthau eraill â chyfraddau uwch yn cynnwys **Gogledd-orllewin Lloegr, Swydd Efrog a Humber, a Llundain**. Yng Nghymru, mae cyfradd y glaslanciau mewn achosion gofal ar draws tair ardal y Barnwyr Teulu Dynodedig (DFJ) wedi amrywio dros amser. Cofnododd ardal **DFJ Caerdydd a De-ddwyrain Cymru** y gyfradd mynychder uchaf, wedi'i dilyn gan Ogledd Cymru. Abertawe a De-orllewin Cymru oedd â'r gyfradd mynychder isaf o bell ffordd, sef bron i hanner y gyfradd yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru. Ni fu llawer o newid dros amser yn Abertawe a De-orllewin Cymru, sy'n mynd yn groes i'r duedd a welwyd mewn rhannau eraill o Gymru a Lloegr. Mae angen rhagor o waith cydweithredol i ddeall yr hyn sy'n ysgogi'r amrywiadau rhanbarthol hyn, a allai gael eu hesbonio'n rhannol gan yr amrywiad o ran defnyddio trefniadau gwirfoddol dan a.20 Deddf Plant 1989 ac a.76 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer glaslanciau. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y gallai effaith newidiadau i gyfraith achosion yn ymwneud â'r defnydd o drefniadau a.20 i letya plant mewn gofal, a arweiniodd at ostyngiad yn y defnydd ohonynt yn genedlaethol, fod yn arbennig o ddifrifol yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, ac y gallai fod amgyffrediad parhaus bod y llysoedd yn annog peidio â defnyddio trefniadau a.20. Gallai ffactorau eraill sy'n cyfrannu at yr amrywiad rhanbarthol gynnwys: effaith amddifadedd; arfer diwylliannol a phenderfyniadau lleol yn ymwneud â glaslanciau; a mynediad at gefnogaeth gynnar i laslanciau a'u teuluoedd.

A yw glaslanciau'n rhan o achosion gofal â'u brodyr/chwiorydd?

Mae mwyafrif y glaslanciau (dros 70%) yn rhan o achosion gofal â'u brodyr/chwiorydd. Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer y glaslanciau sy'n dod yn rhan o achosion gofal ar eu pen eu hunain dros y naw mlynedd diwethaf. Mae angen gwneud gwaith pellach i ddeall y rhesymau am hyn, a sut y gallai eu hanghenion a'u canlyniadau fod yn wahanol i achosion brodyr a chwiorydd.

Beth yw canlyniadau gorchmynion cyfreithiol terfynol?

Caiff mwyafrif y glaslanciau eu gwneud yn destun gorchmyn gofal ar ddiwedd yr achos yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn wedi parhau'n gymharol gyson dros y degawd diwethaf.

Yn Lloegr, bu cynnydd nodedig yn nifer y glaslanciau iau (10 i 14 oed) sy'n cael eu rhoi ag aelodau teulu (dan warcheidiaeth arbennig, trefniadau plant neu orchymyn preswyllo), gan gynyddu o 16% i 23% rhwng 2012/13 a 2019/20. Ychydig iawn sy'n hysbys am deithiau glaslanciau i ofal gan berthynas a'u canlyniadau.

Mae gwahaniaethau nodedig rhwng Cymru a Lloegr. Roedd gorchmyn gofal yn fwy cyffredin ar ddiwedd achos yng Nghymru, a roddwyd i fwyafrif helaeth y glaslanciau (dros 80%), o gymharu ag ychydig dros hanner y glaslanciau yn Lloegr. Mae barnwyr yng Nghymru yn ymddangos yn llai tebygol o ddefnyddio'r ystod lawn o orchmynion cyfreithiol sydd ar gael iddynt mewn perthynas â glaslanciau, o gymharu â'r rhai yn Lloegr.

Mae angen ymchwil bellach i ddeall y canlyniadau i laslanciau sy'n destun achosion gofal, gan gynnwys sefydlogrwydd lleoliadau. Dylai hyn gynnwys ymchwil ansoddol i ddeall profiadau plant o achosion gofal ac ymyrraeth gwaith cymdeithasol yn ystod y glasoed, yn ogystal ag ymchwil i ddeall sut y gallai canlyniadau fod yn wahanol yn ôl ethnigrwydd.

Beth yw profiad glaslanciau hŷn?

Daeth teithiau glaslanciau hŷn (15 i 17 oed) mewn achosion gofal yn ffocws penodol yn yr ymchwil, gyda chynnydd sylweddol yn nifer y plant hŷn a oedd yn dod yn rhan o achosion gofal yn Lloegr.

- Rhwng 2011/12 a 2019/20, roedd cynnydd o bron i 150% yn nifer y bobl ifanc 15 oed mewn achosion gofal, a chynnydd o 285% ymhlith rhai 16 oed. Mae angen ymchwil bellach i ddeall y rhesymau pam y mae niferoedd cynyddol o blant hŷn yn dod yn rhan o achosion gofal.
- Mae nifer y gorchmynion gofal a roddwyd yn bwysig ymhlith y boblogaeth glaslanciau hŷn (cofnodwyd mewn dros 50% o achosion yn Lloegr a thua 80% yng Nghymru), sy'n cynrychioli lefel sylweddol o ymyrraeth ym mywydau pobl ifanc wrth iddynt symud i oedolaeth. Mae angen gwaith pellach i ddeall eu taflwybrau i mewn i ofal, am ba hyd yr oedd gwasanaethau plant yn ymwybodol ohonynt cyn yr achosion, a math ac ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael fel hwyrddfyodiaid i'r system ofal. Dylai hyn gynnwys ymgynghori â phobl ifanc am eu profiadau o ymyrraeth cyfiawnder teuluoedd yn hwyr yn y glasoed.

- Canfu'r ymchwil na chafodd bron i draean o laslanciau 16 oed neu'n hŷn orchymyn cyfreithiol terfynol erbyn i'w hachosion gau yn Lloegr. Ni welwyd yr un patrwm yng Nghymru.
- Roedd mwyafrif (80%) y rhai 16 oed neu'n hŷn mewn achosion gofal â brodyr a chwiorydd iau, ac mae'n bosibl eu bod yn heneiddio allan o achosion gofal (yn cyrraedd 17 oed cyn i orchymyn cyfreithiol terfynol gael ei roi), neu y gallai eu brodyr a chwiorydd iau fod yn destun gorchymyn. Fodd bynnag, mae nifer yr achosion lle mae hyn wedi digwydd yn codi cwestiynau ynghylch y rhesymau am ddod â glaslanciau hŷn i mewn i achosion gofal, ynghyd â gallu'r system cyfiawnder teuluol – a'r gorchymynion cyfreithiol terfynol sydd ar gael – i fodloni eu hanghenion.

Argymhellion

- Mae angen gwaith pellach i ddeall y ffactorau sy'n arwain at y cynnydd yn nifer y glaslanciau sy'n dod yn rhan o achosion gofal, gan gynnwys ymchwilio i'r gorgyffyrddiad rhwng plant sy'n ymddangos yn y llysoedd teulu, systemau cyfiawnder teuluol ac iechyd meddwl, a'r defnydd o lety diogel ac amddifadu o ryddid dan yr awdurdodaeth gynhenid i letya glaslanciau ag anghenion cymhleth.
- Mae'n amlwg bod angen edrych ar y defnydd o drefniadau a.20/a.76 ar gyfer glaslanciau. Mae angen gwaith pellach i ddeall i ba raddau y mae newidiadau o ran arfer yn ymwneud â threfniadau a.20/a.76 wedi bod yn ffactor yn y cynnydd yn nifer y glaslanciau mewn achosion gofal, yr amrywiad rhanbarthol yn y defnydd o a.20/a.76, a'r gwahaniaethau o ran nodweddion ac anghenion y glaslanciau mewn achosion gofal o gymharu â'r rhai sydd â threfniadau gwirfoddol.
- Gwnaethom nodi gwahaniaethau rhanbarthol amlwg yng nghyfraddau'r glaslanciau sy'n destun achosion gofal. Bydd deall yr amrywiad hwn yn fanylach – gan gynnwys yr amrywiadau o ran arfer proffesiynol, y gwasanaethau ataliol sydd ar gael, a rôl amddifadedd – yn bwysig er mwyn galluogi gwasanaethau i ymateb i anghenion lleol.
- Mae'r adroddiad yn rhoi ffocws ar deithiau glaslanciau hŷn (15 oed neu'n hŷn) i'r system cyfiawnder teuluol a'r tu hwnt. Mae angen deall mwy am y rhesymau y mae glaslanciau hŷn yn dod yn rhan o achosion gofal, gan gynnwys manylion am bryderon diogelu a ffactorau risg, a beth mae cynlluniau gofal yn ei gynnig, i lywio ymateb y system i laslanciau hŷn. Ar hyn o bryd, ychydig iawn sy'n hysbys am sut maent yn dod yn rhan o achosion gofal a'u canlyniadau ar ôl achosion gofal.
- Yn yr adroddiad hwn, ni fu'n bosibl archwilio anghyfartaledd ethnig yng nghyfraddau'r glaslanciau sy'n dod yn rhan o achosion gofal oherwydd bylchau yn y data. Rydym yn argymhell y dylai hyn fod yn flaenoriaeth ar gyfer ymchwil yn y dyfodol. Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield a'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol yn cydweithio â Cafcass a darparwyr data eraill i wella'r gwaith o gofnodi data ethnigrwydd mewn setiau data gweinyddol.

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig y trosolwg cenedlaethol cyntaf o blant a phobl ifanc 10 i 17 oed sy'n destun achosion gofal dan Adran 31 Deddf Plant 1989 (a.31 DP 1989) yng Nghymru a Lloegr.² Gan ddefnyddio data gweinyddol a gasglwyd fel mater o drefn gan y Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) a Cafcass Cymru rhwng 2011/12 a 2019/20, ei nod yw mesur tueddiadau yn ymwneud â:

- nifer a chyfran y plant hŷn a phobl ifanc ('glaslanciau') sy'n destun achosion gofal o gymharu â phob plentyn
- cyfradd y ceisiadau ar draws Cymru a Lloegr yn eu cyfanrwydd, ac ar draws y naw rhanbarth yn Lloegr a thair ardal y Barnwyr Teulu Dynodedig (DFJ) yng Nghymru
- nifer y brodyr a chwiorydd sy'n gysylltiedig ag achos; hyd yr achos; a phatrwm y gorchmynion cyfreithiol a wnaed dros amser.

Mae cyfnod amser yr adroddiad hwn yn cynnwys ceisiadau a dderbyniwyd gan Cafcass a Cafcass Cymru hyd at 31 Mawrth 2020, fel roedd y pandemig COVID-19 yn dechrau datblygu yn y DU. Felly, mae archwilio effaith y pandemig at gyfraddau'r glaslanciau mewn achosion gofal y tu allan i gwmpas yr astudiaeth hon. Fodd bynnag, mae'n ymddangos y bydd y pandemig wedi ychwanegu at lawer o'r heriau presennol y mae glaslanciau a'u teuluoedd, a'r llysoedd teulu, yn eu hwynebu. Disgwylir y bydd y cyfnodau clo parhaus a chau'r ysgolion wedi cael effaith ddwys ar laslanciau bregus, gyda Swyddfa'r Comisiynydd Plant yn rhagfynegi bod 120,000 o bobl ifanc yn eu harddegau yn Lloegr yn disgyn drwy'r bylchau yn yr ysgol a'r system gofal cymdeithasol erbyn hyn (2020b). Yn ogystal, mae'r llysoedd teulu'n wynebu ôl-groniad cynyddol ac oedi anochel mewn achosion gofal (gweler Rehill a Roe 2021), er y bydd maint yr oedi'n debygol o amrywio ar draws ardaloedd llysoedd yng Nghymru a Lloegr. Wrth symud ymlaen, bydd yn bwysig archwilio effaith COVID-19 ar laslanciau yn y system cyfiawnder teuluol.

Beth ydym yn ei olygu â'r term 'glasoed'?

Mae diffiniadau o'r glasoed yn destun cryn ddadl. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi diffinio 'glaslanciau' fel pobl ifanc rhwng 10 a 17 oed. Mae hyn yn adlewyrchu diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) o'r 'glasoed' yn dechrau yn 10 oed, a'r ddealltwriaeth gynyddol o'r newidiadau datblygiadol a'r trawsnewidiadau biolegol, ymddygiadol, gwybyddol a chymdeithasol sy'n digwydd rhwng plentynod ac oedolaeth (Patton et al. 2016). Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae blaenlencyndod cynharach wedi cyflymu dechrau'r glasoed, ac mae dealltwriaeth o

² Er bod polisi a deddfwriaeth gofal cymdeithasol wedi'u datganoli yng Nghymru, mae Cymru a Lloegr yn rhannu'r un fframweithiau cyfreithiol a statudol mewn perthynas â chyfiawnder teuluol, i raddau helaeth. Mae Deddf Plant 1989 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer ceisiadau gofal yng Nghymru a Lloegr.

dwf parhaus a datblygiad yr ymennydd wedi arwain at alw am ymestyn ei bwynt terfyn ymhell i'r ugeiniau (Sawyer et al. 2018; Fuhrmann, Knoll a Blakemore 2015). Dan Ddeddf Plant 1989, caiff plentyn ei ddiffinio'n unrhyw un dan 18 oed, sy'n darparu terfyn oedran uchaf y boblogaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr astudiaeth hon. Er na all y llys wneud gorchmynion gofal mewn perthynas â phlant 17 oed neu'n hŷn, mae rhai yn ymddangos mewn achosion gofal. Mae ein diffiniad hefyd yn adlewyrchu ystod oedran y system cyfiawnder troseddol, lle mae'r oedran cyfrifoldeb troseddol yn 10 oed. Mae llawer o blant sy'n ymddangos yn y system cyfiawnder ieuencid wedi ymddangos yn y llysoedd teulu ar ryw adeg, ac mae'r tebygolrwydd o droseddu a bod yn destun achos cyfraith gyhoeddus yn rhannu nifer fawr o ffactorau risg teuluol ac alldeuluol (Forty a Sturrock 2017).

Er ein bod yn cyfeirio at 'blant hŷn' a 'phobl ifanc' yn nheitl yr adroddiad, y crynodeb, y drafodaeth ac mewn termau cyffredinol, defnyddiwn y term 'glaslanciau' wrth gyflwyno canfyddiadau'r astudiaeth hon. Defnyddiwn y term 'glaslanciau iau' i gyfeirio at blant 10 i 14 oed, a 'glaslanciau hŷn' i gyfeirio at bobl ifanc 15 oed neu'n hŷn.

Pam canolbwyntio ar blant hŷn a phobl ifanc yn y system cyfiawnder teuluol?

Er bod y rhan fwyaf o blant (tua 70%) yn dod yn rhan o achosion gofal cyn iddynt gyrraedd y glasoed, mae nifer y ceisiadau sy'n ymwneud â phlant hŷn a phobl ifanc yn cynyddu (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2020b). Ar yr un pryd, bu cynnydd hefyd yn nifer y plant hŷn a'r bobl ifanc hyn sy'n mynd i'r system ofal yng Nghymru a Lloegr yn ystod y degawd diwethaf (drwy achosion gofal neu drefniadau gwirfoddol) (Yr Adran Addysg 2020a; StatsCymru 2021). Mae'r tueddiadau hyn wedi codi pryderon ynghylch gallu'r systemau cyfiawnder teuluol ac amddiffyn plant i fodloni anghenion cymhleth a nodweddion bregus plant hŷn.

Dros y degawd diwethaf, bu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gynyddol o'r ystod o ffactorau risg y mae plant hŷn a phobl ifanc yn eu hwynebu, y mae llawer ohonynt yn wahanol i'r rhai y mae plant iau yn eu profi (Hanson a Holmes 2014; Holmes a Smale 2018; Swyddfa'r Comisiynydd Plant (CCO) 2019). Mae hyn yn cynnwys iechyd meddwl gwael, wynebu trais, camfanteisio, cam-drin ac esgeulustod. Yn gynyddol, rhoddwyd sylw i'r risgiau y mae plant hŷn a phobl ifanc yn eu hwynebu y tu allan i'r cartref - mewn ysgolion, mewn mannau cyhoeddus ac ar blatfformau ar-lein, a chan grwpiau cyfoedion - gan gynnwys camfanteisio ar blant yn rhywiol ac yn droseddol, cam-drin gan gyfoedion, a chysylltiad â gangiau (Firmin 2017; Hanson a Holmes 2014; Firmin, Wroe, a Lloyd 2019; Hodges a Bristow 2019). Yn aml, mae'r ffactorau risg hyn yn gydgyssylltiedig ac yn rhyngwynebu â throseddolrwydd. Mae data atgyfeirio gwasanaethau plant yn cynnig rhyw fath o syniad o'r rhesymau pam y gall glaslanciau ddod at sylw gwasanaethau amddiffyn plant, a'u hanghenion penodol o gymharu â phlant iau. Tra caiff dros hanner y plant 10 i 17 oed eu hatgyfeirio i wasanaethau plant oherwydd pryderon ynghylch cam-drin neu esgeulustod teuluol (y rheswm mwyaf cyffredin), mae'r gyfradd hon yn is o lawer nag ar gyfer plant iau (Yr Adran Addysg 2020b). Mae dadansoddiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant (CCO) wedi amlygu'r ffactorau a gofnodwyd gan wasanaethau plant yn yr asesiad cyntaf i blant sy'n mynd i ofal (2019). Mae'n dangos, ar ôl esgeulustod a cham-drin, mae pobl ifanc yn eu harddegau (13 oed neu'n hŷn) yn fwyaf tebygol o fod mewn perygl o ffactorau sy'n cynnwys iechyd meddwl gwael (mewn 23.5% o achosion),

ymddygiad sy'n annerbyniol yn gymdeithasol (18.9%), mynd ar goll (14.9%), a chamfanteisio'n rhywiol ar blant (12.3%). O gymharu â phlant iau, mae pobl ifanc yn eu harddegau yn fwy tebygol o lawer o fynd i ofal â risgiau canfyddadwy o ffactorau fel camfanteisio'n rhywiol ar blant, mynd ar goll, ymwneud â gangiau, camddefnyddio cyffuriau eu hunain neu broblemau iechyd meddwl (CCO 2019).

Felly, mae anghenion a gwendidau cymhleth glaslanciau yn wahanol i rai plant iau ac yn mynnu ymateb diogelu gwahanol. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol i blant wedi adrodd ar gymhlethdod cynyddol achosion amddiffyn plant sy'n ymwneud â glaslanciau, a chostau cynyddol amddiffyn yr unigolion hyn rhag niwed, yn aml mewn llety drud ac amhriodol (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant (ADCS) 2016; ADCS 2021; Thomas 2018; CCO 2020a; Williams et al. 2020). Bu cydnabyddiaeth gynyddol nad yw arferion diogelu ehangach, sydd wedi'u llunio'n bennaf i fodloni anghenion plant iau sy'n wynebu niwed o'r tu mewn i'r teulu, yn gweithio'n dda i laslanciau bob tro (ADCS 2013; DfE 2014; Hanson a Holmes 2014). Yn y system cyfiawnder teuluol, cipiwyd pryderon ynghylch gallu'r system i fodloni anghenion glaslanciau mewn dadleuon a dyfarniadau amrywiol yn ymwneud ag argaeledd llety diogelu, y cynnydd mewn achosion amddifadu o ryddid, darparu gofal iechyd meddwl, camfanteisio'n rhywiol ar blant, a'r gorgyffwrdd rhwng plant sy'n ymddangos yn y systemau cyfiawnder teuluol a chyfiawnder troseddol.³

Er mwyn ymateb i'r her gynyddol hon, bu sawl ardal leol, ymchwilwyr a sefydliadau yng Nghymru a Lloegr yn datblygu mentrau newydd i ymateb yn well i niwed a chamfanteisio alldeuluol sy'n cael eu hwynebu gan laslanciau, a'u hatal (gweler er enghraifft Sebba et al. 2017; Firmin, Wroe, a Lloyd 2019; Holmes a Smale 2018; ADCS 2021). Mae hyn yn cynnwys y model diogelu cyd-destunol, sy'n ystyried y ffactorau amgylcheddol ac alldeuluol ehangach a all rhoi plant mewn perygl (Firmin 2017), y cynhaliwyd peilot ohono ym Mwrdeistref Hackney yn Llundain, ac a gyflwynwyd mewn sawl ardal beilot arall yng Nghymru a Lloegr ers hynny (Firmin a Lloyd 2020).⁴ Mae mentrau eraill yn cynnwys y model *Achieving Change Together* (ACT) ym Manceinion Fwyaf, sydd â'r nod o leihau nifer y bobl ifanc sy'n cael eu rhoi mewn lleoliadau drud y tu allan i'r fwrdeistref drwy reoli risgiau ar y cyd â phobl ifanc yn eu cymunedau eu hunain.⁵ Mae gwasanaethau plant Casnewydd wedi datblygu model Un Ymagwedd tuag at Gamfanteisio, gan archwilio ymatebion cyfunol i gamfanteisio troseddol a rhywiol mewn un ymateb trosfwaol i niwed. Mae'r model *No Wrong Door* yn enghraifft arall o waith amlasiantaeth i fodloni anghenion glaslanciau sydd mewn gofal neu ar gyrion gofal. Fe'i datblygwyd yng ngogledd Swydd Efrog ac mae'n cynnig ystod o ddewisiadau llety, gwasanaethau ac allgymorth o 'hybiau' canolog (Lushey et al. 2017). Mae ymagweddau newydd tuag at ddiogelu trosiannol yn cael eu datblygu hefyd er mwyn ymateb i'r angen am gymorth parhaus i bobl ifanc sy'n pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion (Holmes a Smale 2018).⁶ Mae rhaglenni

³ Gweler er enghraifft: achos *Re Z (Plentyn: Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid: Diffyg Lleoliad Diogel)* [2020] EWHC 1827; darlith Syr James Munby (2018); Darlith Goffa Nicholas Wall Sr Andrew McFarlane (2019) (<https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2019/05/nicholas-wall-memorial-lecture-may-2019.pdf>).

⁴ <https://contextualsafeguarding.org.uk/>

⁵ <https://innovationcsc.dev.bbdtest.co.uk/projects/achieving-change-together/>

⁶ Mae enghreifftiau'n cynnwys yr Hwb Camfanteisio'n Rhywiol yn Newcastle, sy'n cynorthwyo plant ac oedolion sydd wedi cael profiad o gamfanteisio'n rhywiol, a'r prosiect *Rescue and Response*, sy'n

eraill sy'n arwain gwaith ar draws nifer o safleoedd yn cynnwys y Rhaglen Gymorth Mynd i'r Afael â Chamfanteisio ar Blant (*Tacking Child Exploitation Support Programme*), dan arweiniad Ymchwil mewn Ymarfer, sydd â'r nod o gynorthwyo ardaloedd lleol i ddatblygu ymateb strategol effeithiol i gamfanteisio ar blant, a Phrosiect Arloesi (*Innovate*), dan arweiniad Prifysgol Sussex, sy'n archwilio sut mae ardaloedd lleol ledled y DU yn arloesi i fynd i'r afael â'r risgiau alldeuluol y mae pobl ifanc yn eu hwynebu.^{7,8}

Fodd bynnag, hyd yn hyn, mae'r mentrau hyn wedi'u sbarduno'n bennaf gan ardaloedd lleol, ac mae data i ddeall tueddiadau ar lefel genedlaethol yn brin. Er bod y system cyfiawnder teuluol wedi mynegi pryder ynghylch nifer gynyddol y plant hyn sy'n dod gerbron y llys, mae diffyg dealltwriaeth o sut mae penderfyniadau yn y llysoedd teulu yn effeithio ar ganlyniadau i laslanciau. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyhoeddi ffigurau blynyddol am ystod oedran y plant mewn achosion cyfraith gyhoeddus (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2020b); fodd bynnag, nid yw'r data hwn yn cael ei ddadansoddi ymhellach, ac nid yw'n cynnig gwybodaeth am amrywiadau rhanbarthol na chanlyniadau gorchmynion cyfreithiol i laslanciau'n benodol. Diben yr adroddiad sylfaenol hwn, felly, yw dechrau disgrifio poblogaeth y laslanciau yn y system cyfiawnder teuluol, er mwyn symbylu trafodaethau cydweithredol ynghylch ei rôl, ochr yn ochr â'r system amddiffyn plant ehangach, o ran ymateb i anghenion cymhleth laslanciau.

Pa ddata sy'n cael ei ddefnyddio?

Achosion

Mae'r astudiaeth hon wedi'i seilio ar ddata rheoli achosion electronig a luniwyd fel mater o drefn gan Cafcass a Cafcass Cymru. Mae'r data'n ymwneud â phob achos gofal a.31 yn ymwneud â laslanciau a ddechreuodd rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2020 yng Nghymru (2,649) a Lloegr (54,509). Roedd y data ar gael yn y Banc Data SAIL [Cyswllt Gwybodaeth Ddienw Ddiogel] sy'n gwarchod preifatrwydd, sy'n cael ei westeia gan Brifysgol Abertawe (Ford et al. 2009; Lyons et al. 2009; Jones et al. 2014; Jones et al. 2019).

Dyma'r dadansoddiad annibynnol cyntaf o ddata Cafcass a Cafcass Cymru yn ymwneud â phlant hyn a phobl ifanc sy'n destun achosion gofal. Mae'n adeiladu ar waith y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol drwy ddefnyddio data Cafcass a Cafcass Cymru sy'n cael ei gadw ym Manc Data SAIL at ddibenion ymchwil (Bedston et al. 2020; Johnson et al. 2020). Hyd yn hyn, mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio'n bennaf ar fabanod a babanod newydd-anedig mewn achosion gofal (Broadhurst et al. 2018; Alrouh et al. 2019; Alrouh et al. 2020; Griffiths et al. 2020a; Pattinson et al. 2021) ac achosion cyfraith breifat (Cusworth et al. 2020; Cusworth et al. 2021).

cefnogi pobl ifanc yn Llundain hyd at 25 oed sydd wedi'u heffeithio gan gamfanteisio'n droseddol (gweler Holmes a Smale 2018; Firmin, Wroe, and Lloyd 2019 am ragor o enghreifftiau).

⁷ <https://tce.researchinpractice.org.uk/>

⁸ <https://theinnovateproject.co.uk/about-the-project/>

Mae data i'w ddadansoddi ar lefel y plentyn. Nid yw Cafcass yn cofnodi perthnasoedd rhwng plant; fodd bynnag, at ddibenion y dadansoddiad hwn, tybiwyd bod plant a oedd wedi'u cynnwys yn yr un achos yn frodyr a chwiorydd.

Caiff hyd yr achos ei gyfrifo fel nifer yr wythnosau rhwng dyddiad cyhoeddi'r cais a.31 a dyddiad y gorchymyn cyfreithiol terfynol. Yn yr astudiaeth hon, gorchmynion cyfreithiol terfynol yw'r gorchmynion hynny a wneir yng ngwrandawriad terfynol achosion gofal, sy'n ddigonol i Cafcass gau'r achos. Gellir gwneud sawl cyfuniad o orchmynion cyfreithiol i blant ar ddiwedd achosion, felly mae'r data yn yr astudiaeth hon wedi'i symleiddio at ddibenion ystadegol. Crëwyd categorïau gorchmynion sy'n adlewyrchu'r canlyniadau nodweddiadol i blant ar ddiwedd achosion gofal (gweler Tabl 1). Mae hyn yn dilyn yr un protocol a amlinellwyd yn Alrouh et al. (2019).

Tabl 1: Categorïau canlyniadau gorchmynion cyfreithiol

Gorchymyn cyfreithiol (fel y cofnodwyd gan Cafcass)	Categori'r gorchymyn cyfreithiol (a bennwyd gan y tîm ymchwil)
Gorchymyn gofal	Mewn gofal
Gorchymyn lleoli	Wedi'i osod i'w fabwysiadu
Gorchymyn mabwysiadu	
Gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig	Gydag aelodau'r teulu*
Gorchymyn trefniadau plentyn	
Gorchymyn preswyllo	
Gorchymyn goruchwyllo	Gyda'i rieni
Gorchymyn cymorth teulu	
Cais wedi'i nacáu/gwrthod/atal dros dro	Dim gorchymyn/
Gorchymyn dim gorchymyn	achos wedi'i dynnu'n ôl
Gorchymyn heb ei wneud	
Pob gorchymyn arall (e.e. gorchymyn amddiffyn brys, gorchymyn adfer, gorchymyn llety diogel)	Arall

Sylwer: *Gall plant gael eu rhoi ag aelodau'r teulu, cyfeillion i'r teulu neu ofalwyr maeth hirdymor dan orchymyn gwarcheidiaeth arbennig. Rydym yn defnyddio'r term 'gydag aelodau'r teulu' i gwmpasu'r achosion hyn.

Rhanbarthau

Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r naw rhanbarth yn Lloegr, sy'n cynnwys grwpiau o awdurdodau lleol fel y defnyddir gan yr Adran Addysg (DfE) a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS): sef Gogledd-ddwyrain Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr, Swydd Efrog a Humber, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Dwyrain Lloegr, Llundain, De-ddwyrain Lloegr a De-orllewin Lloegr.

Ni chaiff ffiniau rhanbarthol cyfatebol eu defnyddio mewn ystadegau swyddogol yng Nghymru. Felly, mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi'u mapio yn ôl tair ardal llysoedd y Barnwyr Teulu Dynodedig yng Nghymru er mwyn archwilio amrywiadau rhwng ardaloedd lleol, fel a ganlyn: Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam); Abertawe a De-orllewin Cymru (Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Powys, Sir Gâr, Sir Benfro a Cheredigion); a Chaerdydd a De-ddwyrain Cymru (Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Casnewydd, Caerffili, Torfaen, Blaenau Gwent a Sir Fynwy).⁹ I gael manylion llawn am fethodoleg yr astudiaeth, gweler Atodiad A.

⁹ Gan fod Gogledd Powys yn ardal DFJ Gogledd Cymru, a De Powys yn ardal DFJ Abertawe a De-orllewin Cymru, ac nad oedd yn bosibl dadelfennu achosion Gogledd Powys a De Powys, mae holl achosion Powys wedi'u cynnwys yn ardal DFJ Abertawe a De-orllewin Cymru at ddibenion yr adroddiad hwn.

Bylchau yn y data a chyfyngiadau

Mae astudiaethau sydd wedi'u seilio ar ddata gweinyddol wedi'u cyfyngu'n angenrheidiol gan gwmpas ac ansawdd y data sydd ar gael, sy'n cael ei gasglu at ddibenion sefydliad yn bennaf, yn hytrach na dibenion ymchwil.

Mae mwyafrif y bobl ifanc yn eu harddegau (70%) yn mynd i ofal o ganlyniad i drefniadau gwirfoddol dan a.20 Deddf Plant 1989 ac a.76 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Clarke a Penington 2021), ac nid yw sefyllfa'r plant hyn yn cael ei chipio yn y data a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaeth hon. Mae hyn oherwydd nad yw Cafcass yn gysylltiedig â'r achosion hyn. Mae'r Adran Addysg a StatsCymru yn cyhoeddi data blynyddol cyfyngedig am nifer y plant sy'n cael eu lletya dan drefniadau gwirfoddol, nad yw'n cael ei ddadansoddi yn ôl oedran.

Er mwyn cael darlun cyflawn o'r glaslanciau mewn gofal, mae angen cyswllt data rhwng data Cafcass a data gofal cymdeithasol. Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield a'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol – sef cydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe – yn cydweithio ag adrannau'r llywodraeth i ddeall sut y gellir creu cysylltiadau yn y dyfodol.

Mae plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches yn cyfrif am gyfran gynyddol o'r boblogaeth hyn sy'n derbyn gofal, gan gyfrif am ryw 20% o'r rhai 13 i 17 oed mewn gofal (CCO 2019). Ceir amrywiad rhanbarthol sylweddol hefyd yn nifer y plant hyn mewn gofal, a Llundain a De-ddwyrain Lloegr sydd â'r cyfraddau uchaf o lawer yn Lloegr (SCDS 2016). Mae plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches yn dueddol o dderbyn gofal dan drefniadau a.20 neu a.76, ac felly ni chânt eu cynnwys yn yr astudiaeth hon.

Un o gyfyngiadau eraill data Cafcass a Cafcass Cymru yw nad yw'n cynnwys gwybodaeth fanwl am ethnigrwydd plant a rhieni. Mae hyn yn bryder enbyd o ystyried bod tystiolaeth sylweddol o anghymesuredd ac anghydraddoldebau ethnig yn y system amddiffyn plant (Bywaters et al. 2017; 2019), ac yng nghyfraddau'r plant sy'n mynd i ofal yn eu harddegau (Clarke a Penington 2021). Heb y data hwn, ni ellir adrodd ar ddarlun cyflawn o nodweddion y plant sy'n destun achosion gofal, nac ennill dealltwriaeth o sut y gallai teithiau plant drwy'r system fod yn wahanol yn amodol ar eu hethnigrwydd a chroestoriadau eraill o'u hunaniaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo â Cafcass a Cafcass Cymru i wella'r modd y caiff data ethnigrwydd ei gofnodi, ac archwilio cyfleoedd i gysylltu data er mwyn cipio gwybodaeth fanylach am ethnigrwydd a nodweddion gwarchodedig eraill.

Yn ogystal, nid yw Cafcass a Cafcass Cymru yn cofnodi gwybodaeth am leoliadau plant ochr yn ochr â'r gorchymyn cyfreithiol terfynol, ar hyn o bryd. Felly, nid yw'n bosibl canfod y lleoliad terfynol i blant sy'n cael gorchymyn gofal, boed hynny gartref, gyda pherthnasau, mewn gofal maeth neu mewn gofal preswyl. Yn y dyfodol, bydd y cysylltiad arfaethedig rhwng data Cafcass a data gofal cymdeithasol yn caniatáu ymchwilio'n agosach i ganlyniadau plant ar ôl achosion gofal.

Cyd-destun cyfreithiol

Mae Cymru a Lloegr yn rhannu'r un fframweithiau cyfreithiol a statudol o ran cyfiawnder teuluol, i raddau helaeth. Mae Deddf Plant 1989 (DP 1989) yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwneud ceisiadau gofal yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, ers i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gael ei rhoi ar waith, mae darpariaeth gofal cymdeithasol, fel cymorth cynnar a llety gwirfoddol i blentyn dan a.76, yn fater datganoledig.

Achosion gofal

Dan Adran 31 (a.31) DP 1989, gall awdurdod lleol wneud cais i'r llys am orchymyn gofal neu orchymyn goruchwyllo os oes pryder bod plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, ac:

- y gellir priodoli'r niwed i'r ffaith bod y gofal sy'n cael ei roi gan y rhiant islaw'r hyn y byddai'n rhesymol ei ddisgwyl; neu
- fod y plentyn y tu hwnt i reolaeth ei r(h)ieni.

Mae gorchymyn gofal yn rhoi plentyn yng ngofal awdurdod lleol dynodedig, a chaiff cyfrifoldeb rhiant ei rannu rhwng y rhieni a'r awdurdod lleol. Gall y plentyn aros yng nghartref (neu ddychwelyd i gartref) y rhieni, neu gael ei (l)letya rywle arall (e.e. gyda gofalwr maeth neu mewn gofal preswyl). Gellir ond gwneud gorchymyn gofal os oes gan y llys 'sail resymol' i gredu y bodlonwyd y meini prawf trothwy. Hefyd, mae angen i'r llys ystyried beth sydd er lles pennaf y plentyn; pa orchymyn, os o gwbl, fydd yn fwyaf priodol (a.1 DP 1989); a ph'un a fyddai gwneud y gorchymyn hwnnw'n gymesur (Erthygl 8, Deddf Hawliau Dynol 1998).

Ar ddechrau'r achos, gall y llys ystyried p'un a ddylid gwneud gorchymyn gofal interim (ICO), sy'n rhoi'r plentyn dan ofal neu oruchwyliaeth yr awdurdod lleol dros dro tra mae'r achos gofal yn mynd rhagddo.

Mae ystod o orchymynion cyfreithiol terfynol ar gael i'r llysoedd ar ddiwedd yr achos. Os bydd plentyn am gael ei r(h)oi â pherthnasau yn y tymor hir, gall y llysoedd ddewis rhoi'r plentyn â pherthnasau dan orchymyn gofal neu wneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig. Os bydd plentyn yn aros mewn gofal maeth neu ofal preswyl, caiff hyn ei awdurdodi drwy orchymyn gofal, fel arfer. Os bydd plentyn yn dychwelyd neu'n aros gartref gyda'r rhieni ar ddiwedd yr achos, gellir gwneud gorchymyn goruchwyllo, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol 'gyngori, ymgysylltu a chynorthwyo'r' plentyn heb fod â chyfrifoldeb rhiant neu, mewn rhai achosion, gwneir gorchymynion gofal dan yr amgylchiadau hyn. Yn ddiweddar, codwyd cwestiynau ynghylch defnyddio gorchymynion goruchwyllo pan fydd plentyn yn cael ei r(h)oi gartref. Mae hyn yn cynnwys pryder ynghylch yr amrywiadau yn y cymorth a roddir i blant a theuluoedd yn ystod gorchymynion goruchwyllo, canlyniadau plant a'r tebygolrwydd o ddychwelyd i'r llys, a'r amrywiad rhanbarthol yn y defnydd ohonynt (Harwin et al. 2019; Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus 2021). Gall y

llys roi gorchymyn cyfreithiol terfynol o ddim gorchymyn hefyd, os bydd y barnwr o'r farn nad oes sail resymol i roi'r plentyn mewn gofal. Mewn rhai achosion, gall yr awdurdod lleol geisio caniatâd i dynnu ceisiadau yn ôl lle nad yw'r meini prawf trothwy'n debygol o gael eu bodloni, neu - os cânt eu bodloni - lle nad yw gorchymynion yn debygol o gael eu gwneud.

Oedran plant

Caiff plentyn ei ddiffinio yn DP 1989 fel unrhyw un dan 18 oed (a.105). Fodd bynnag, ni ellir gwneud gorchymyn gofal na gorchymyn goruchwyllo mewn perthynas â phlentyn sydd wedi cyrraedd 17 oed (neu 16 oed os yw'r plentyn yn briod).

Os bydd plentyn yn troi 17 oed yn ystod achos gofal, mae dyfarniad diweddar yn achos *Re Q* [2019] wedi cadarnhau nad oes gan y llys unrhyw bŵer i wneud gorchymyn gofal interim neu orchymyn goruchwyllo. Dywedwyd mewn llawer o achosion tebyg, mai terfynu'r achos oedd yn debygol o fod y canlyniad mwyaf cymesur; fodd bynnag, cydnabu'r barnwr, mewn rhai achosion, y dylai achosion gofal barhau os oes 'diben fforensig defnyddiol sydd wedi'i ysgogi gan les' ac i 'bennu'r sail ar gyfer penderfyniadau gan awdurdod lleol yn y dyfodol, er enghraifft ynghylch y math o gymorth sydd ar gael i'r plentyn neu'r teulu dan sylw'.¹⁰

Mae gorchymynion gofal yn parhau nes bydd plentyn yn cyrraedd 18 oed, oni bai y caiff ei r(h)yddhau'n gynharach. Mae DP 1989 yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol tuag at 'blant sy'n derbyn gofal' a 'phlant sydd wedi derbyn gofal' yn flaenorol wrth iddynt adael y system ofal. Mae ei ddyletswyddau tuag at blant sydd wedi derbyn gofal yn flaenorol yn dibynnu ar oedran yr unigolyn ifanc, pa bryd y gadawodd gofal, ac am ba hyd y bu mewn gofal.

Gall yr awdurdod lleol wneud cais i'r llys o hyd i arfer ei bwerau dan yr awdurdodaeth gynhenid, yn amodol ar a.100 DP 1989, mewn perthynas â phlant 17 oed. Mae'r awdurdodaeth gynhenid yn berthnasol i blant o bob oed, lle na ellir datrys y materion yn ymwneud â'r plentyn dan Ddeddf Plant 1989. Mae hyn yn cynnwys achosion yn ymwneud ag amddifadu o ryddid plentyn, y posibilrwydd o herwgydio plentyn, neu driniaeth feddygol. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae rhywfaint o dystiolaeth o'r defnydd cynyddol o awdurdodaeth gynhenid i amddifadu plant o'u rhyddid (CCO 2020a), a phryder cynyddol o fewn y llysoedd teulu am ei ddefnydd wrth ymateb i'r prinder llety diogel sydd ar gael dan a.25 DP 1989.¹¹

¹⁰ Gweler yr erthygl gan Hazel Samuriwo am fwy o fanylion:
<https://www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed211731>

¹¹ Gweler er enghraifft achos *Re Z (Plentyn: Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid: Diffyg Lleoliad Diogel)* [2020] EWHC 1827 a Darlith Goffa Nicholas Wall Sr Andrew McFarlane 2019 (<https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2019/05/nicholas-wall-memorial-lecture-may-2019.pdf>)

Lletya plant yn wirfoddol dan a.20 (Lloegr) ac a.76 (Cymru)

Yng Nghymru a Lloegr, mae a.20 Deddf Plant 1989 ac a.76 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu llety i blant nad oes ganddynt unrhyw un i ofalu amdanynt, neu lle mae eu gofawyr wedi'u hatal rhag darparu llety neu ofal addas ar eu cyfer. Mae'r ddyletswydd yn dibynnu ar y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant yn cytuno â'r trefniant, ac nid yw'n cynnwys y llysoedd.

Yn Lloegr, mae a.20 yn darparu i awdurdodau lleol ddod i gytundeb â rhieni ynghylch darparu llety a fyddai'n diogelu neu'n hyrwyddo lles plentyn. Mae arweiniad statudol yn ei gwneud yn glir y gallai a.20 fod yn rhan bwysig o gymorth i deuluoedd, wedi'i drefnu mewn cytundeb â rhieni fel modd i gynnig cymorth seibiant neu gymorth byrdymor neu, mewn rhai achosion, llety tymor hwy i blant.

Pennodd *R (G) v London Borough of Southwark* [2009] gyfrifoldebau gwasanaeth plant mewn perthynas â phobl ifanc 16 neu 17 oed sy'n cyflwyno'n ddigartref hefyd. Pan fydd unigolyn ifanc 16 neu 17 oed yn cyflwyno'n ddigartref ac asesir bod angen llety arno/arni, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i letya'r unigolyn ifanc dan a.20. Arweiniodd hyn at gynnydd yn nifer y bobl ifanc 16 a 17 oed mewn gofal dan drefniadau a.20 o 2009 ymlaen.

Yn *Re N* [2015], mynegodd y llys bryder ynghylch y 'camddefnydd a'r gamdriniaeth' o gytundebau a.20 gan awdurdodau lleol, a chyhoeddodd arweiniad newydd ar eu defnyddio. Roedd y beirniadaethau'n cynnwys methu cael caniatâd gwybodus gan rieni, cofnodi caniatâd, a hyd trefniadau a.20. Cyhoeddwyd arweiniad pellach gan ADCS, Cafcass ac ADSS Cymru ym mis Ebrill 2016, a oedd yn cadarnhau y dylai awdurdodau lleol adolygu pob achos a.20 a oedd ar agor, a'r achosion a.76 cyfwerth yng Nghymru (ADCS, Cafcass ac ADSS Cymru 2016). Arweiniodd y newid hwn i'r arweiniad at fwy o bryder a dryswch gan awdurdodau lleol o ran defnyddio trefniadau a.20/a.76, a chredir bod hyn wedi cyfrannu at gynnydd yn nifer y ceisiadau am orchmynion gofal (Thomas 2018).

Eglurwyd y gyfraith achosion yn ymwneud â'r defnydd o drefniadau a.20 yn 2018, yn dilyn dyfarniad y Goruchel Lys *Williams v LB Borough of Hackney* [2018]. Roedd hwn yn cadarnhau ei fod yn dderbyniol defnyddio trefniadau a.20/a.76 ar yr amod bod y rhieni, a'r plentyn os yw'n ddigon hen, yn deall yn iawn beth oedd effeithiau cyfreithiol hyn ac, yn benodol, y gallant ofyn i'w plentyn ddychwelyd adref ar unrhyw adeg. Cadarnhawyd hefyd nad oedd unrhyw derfyn amser ar ba mor hir y gellid defnyddio a.20/a.76, ar yr amod bod caniatâd o hyd a bod yr ALI yn cydymffurfio â'i holl ddyletswyddau i blant sy'n derbyn gofal, fel cynllunio ac adolygu. Cyhoeddwyd arweiniad pellach ar ddefnyddio trefniadau a.20/a.76 gan y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus ym mis Mawrth 2021 (PLWG 2021).

Mae ystadegau'r Adran Addysg yn cadarnhau, ar ôl y newid i'r arweiniad, y bu gostyngiad cyson yng nghyfran y plant sy'n derbyn gofal dan drefniadau a.21, o 28% yn 2014/15 i 17% yn 2019/20 (Yr Adran Addysg (DfE) 2020a). Yng Nghymru, mae'r defnydd o drefniadau a.76 wedi gostwng o 18% yn 2014/15 i 8% yn 2019/20 (StatsCymru 2021).

Amserlenni ar gyfer cwblhau achosion gofal

Cyflwynwyd amserlenni byrrach ar gyfer cwblhau achosion gofal gyda Deddf Plant a Theuluoedd 2014. Erbyn hyn, rhaid i achosion gael eu cwblhau cyn pen 26 wythnos, oni bai bod angen estyniad i ddatrys yr achos yn gyfiawn.

Canfyddiadau


Nifer yr achosion a'r newid dros amser

Lloegr

Mae plant rhwng 10 a 17 oed ('glaslanciau') yn cyfrif am tua 24% (44,907) o tua 190,000 o blant a ddaeth ynghlwm wrth achosion gofal rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2020 yn Lloegr.¹² Mae mwyafrif yr achosion gofal yn cynnwys plant pedair oed neu'n iau – sef patrwm sydd wedi parhau'n gyson dros amser. Serch hynny, bu cynnydd cyson yn nifer y glaslanciau sy'n destun achosion gofal. Yn 2011/12, roedd glaslanciau'n cyfrif am 18% yn unig o'r holl blant mewn achosion gofal; erbyn 2019/20, roedd hyn wedi cynyddu i 27%.

Yn 2011/12, roedd 3,081 o laslanciau'n destun achosion gofal. Erbyn 2019/20, roedd y nifer hon bron â dyblu, gan gynyddu i 6,013 – sef cynnydd canrannol o 95%. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol yn nifer y plant hŷn sy'n dod gerbron y llys teulu.

Ffigur 1: Cyfran y plant sy'n destun achos gofal a.31 yn ôl categori oedran ar ddechrau'r achos, fesul blwyddyn yn Lloegr



Rhwng 2011/12 a 2019/20, roedd cynnydd yn nifer y plant a oedd yn destun achosion gofal ar draws pob grŵp oedran. Mae Tabl 2 yn dangos y newid canrannol o un flwyddyn i'r llall yn nifer yr achosion. Mae'n dangos bod y newid cyfartalog mwyaf o un flwyddyn i'r llall ymhlith glaslanciau. Y gyfradd cynnydd ar gyfer glaslanciau yw 8%, o gymharu ag amrediad o 1-3% ar gyfer pob categori oedran arall.

¹² Sylwer: mae'r holl oeddrannau'n cyfeirio at oedran y plentyn ar ddyddiad dechrau'r achos.


Ar draws pob categori oedran, bu mân ostyngiad yn nifer yr achosion gofal a ddechreuwyd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf hefyd.

Tabl 2: Newid o un flwyddyn i'r llall yn nifer y plant sy'n destun achos gofal a.31 yn ôl categori oedran ar ddechrau'r achos, Lloegr

Oedran (blynnyddoedd)	2011/12– 2012/13	2012/13– 2013/14	2013/14 – 2014/15	2014/15 – 2015/16	2015/16 – 2016/17	2016/17– 2017/18	2017/18– 2018/19	2018/19 – 2019/20	Newid cyfartal og o un flwyddyn i'r llall
≤4	6.6%	-6.2%	1.8%	6.2%	8.5%	-1.6%	-3.4%	-4.0%	1.0%
5–9	8.0%	1.7%	9.6%	13.6%	10.3%	-0.9%	-6.8%	-10.1%	3.2%
10–17	10.9%	5.1%	9.3%	20.9%	22.8%	1.9%	-5.8%	-5.4%	7.5%
Cyfanswm	7.7%	-2.1%	5.3%	11.6%	12.7%	-0.5%	-4.8%	-5.8%	3.0%

Mae Ffigur 2 yn rhoi dadansoddiad o nifer y glaslanciau a oedd yn destun achosion gofal fesul blwyddyn yn Lloegr. Mae cynnydd i'w weld ar gyfer glaslanciau o bob oedran dros y cyfnod amser, er bod nifer y rhai 17 oed mewn achosion gofal wedi parhau'n isel.

Ffigur 2: Nifer y glaslanciau sy'n destun achosion gofal yn ôl oedran ar ddechrau'r achos, fesul blwyddyn, Lloegr



Mae mwyafrif yr achosion gofal yn ymwneud â glaslanciau iau. Mae nifer y rhai rhwng 10 a 14 oed wedi dyblu'n fras yn ystod y naw mlynedd diwethaf (gweler Tabl 3). Fodd bynnag, ar yr un pryd, bu cynnydd amlwg yn nifer y glaslanciau hŷn sy'n destun achosion gofal. Rhwng 2011/12 a 2019/20, cynyddodd nifer y rhai 15 oed mewn achosion gofal bron 150%, a nifer y rhai 16 oed 285%. Er bod cyfanswm nifer y glaslanciau 15 oed neu'n hŷn sy'n destun achosion gofal yn parhau'n gymharol isel – er enghraifft, yn 2019/20, roedd glaslanciau 15 oed yn cyfrif am ychydig yn llai na 4% o'r holl blant mewn gofal – mae hyn yn cynrychioli cynnydd cyson yn nifer y plant hŷn sy'n dod gerbron y llysoedd.

Ar draws poblogaeth y glaslanciau, roedd cynnydd arbennig o fawr rhwng 2014/15 a 2016/17, gyda chynnydd blynyddol o tua 27%–30% (gweler Tabl B.3). Dylid nodi bod hyn yn cyd-fynd â newid mewn arfer o ran trefniadau a.20 a chynnydd tebygol yn nifer yr achosion hyn a oedd yn dod gerbron y llysoedd.¹³ Ar hyn o bryd, mae data gofal cymdeithasol i blant yn dangos gostyngiad yng nghyfran y plant mewn gofal dan drefniadau gwirfoddol yn Lloegr (Yr Adran Addysg 2020a). Fodd bynnag, ymddengys bod y gostyngiad hwn yn fwy llym o 2016/17 ymlaen, wrth i'n cynnydd yng nghyfradd y glaslanciau mewn achosion gofal ddechrau arafu. Yn ogystal, roedd cyfraddau'n cynyddu yn Lloegr cyn 2014/15. Felly, er bod newidiadau o ran arfer yn ymwneud ag achosion a.20 yn debygol o esbonio cyfran o'r nifer gynyddol o laslanciau mewn achosion gofal, nid yw'n esbonio'r cynnydd yn nifer yr achosion yn llawn.

Bu mân ostyngiad yn nifer yr achosion gofal a ddechreuwyd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf hefyd. Mae hyn yn adlewyrchu patrwm tebyg i'r hyn a welwyd ar gyfer pob plentyn (gweler Tabl 2). Nid yw'n bosibl dod i gasgliadau cadarn, uniongyrchol ynghylch gostyngiad yn nifer y glaslanciau sy'n mynd ynghlwm wrth achosion gofal o'r data hwn. Bydd yn bwysig parhau i fonitro'r duedd dros yr ychydig flynyddoedd sydd i ddod i ddeall a yw nifer y glaslanciau mewn achosion gofal wedi sefydlodi, yn cynyddu neu'n amrywio, a sut mae hyn yn cymharu â'r tueddiadau ar gyfer grwpiau oedran iau.

Tabl 3: Nifer y glaslanciau sy'n destun achosion gofal yn ôl oedran ar ddechrau'r achos, fesul blwyddyn, Lloegr

Oedran (blynyddoedd)	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	Cyfanswm
10	588 [19.1%]	638 [18.5%]	699 [19.2%]	777 [19.4%]	846 [16.7%]	1,000 [15.2%]	1,031 [15.4%]	1,019 [16.1%]	942 [15.7%]	9,524 [17.5%]
11	579 [18.8%]	608 [17.6%]	609 [16.7%]	693 [17.3%]	829 [16.3%]	997 [15.2%]	986 [14.7%]	975 [15.4%]	937 [15.6%]	9,011 [16.5%]
12	527 [17.1%]	589 [17.0%]	596 [16.4%]	623 [15.5%]	800 [15.8%]	996 [15.1%]	1,009 [15.0%]	1,010 [15.9%]	953 [15.8%]	8,814 [16.2%]
13	526 [17.1%]	546 [15.8%]	556 [15.3%]	604 [15.0%]	825 [16.2%]	1,034 [15.7%]	1,122 [16.7%]	1,037 [16.4%]	958 [15.9%]	8,694 [15.9%]
14	417 [13.5%]	525 [15.2%]	546 [15.0%]	629 [15.7%]	788 [15.5%]	1,051 [16.0%]	1,134 [16.9%]	1,023 [16.1%]	962 [16.0%]	8,371 [15.4%]
15	328 [10.6%]	409 [11.8%]	457 [12.5%]	454 [11.3%]	668 [13.2%]	1,048 [15.9%]	948 [14.1%]	866 [13.7%]	816 [13.6%]	6,964 [12.8%]
16	111 [3.6%]	134 [3.9%]	172 [4.7%]	220 [5.5%]	307 [6.0%]	427 [6.5%]	456 [6.8%]	390 [6.2%]	428 [7.1%]	2,971 [5.5%]
17	5 [0.2%]	7 [0.2%]	7 [0.2%]	14 [0.3%]	14 [0.3%]	26 [0.4%]	20 [0.3%]	19 [0.3%]	17 [0.3%]	160 [0.3%]
Cyfanswm	3,081 [100%]	3,456 [100%]	3,642 [100%]	4,014 [100%]	5,077 [100%]	6,579 [100%]	6,706 [100%]	6,339 [100%]	6,013 [100%]	54,509 [100%]


Cymru

Mae nifer y glaslanciau mewn achosion gofal wedi cynyddu yng Nghymru hefyd. Roedd glaslanciau'n cyfrif am 20% (2,516) o'r tua 12,300 o blant a oedd ynghlwm

¹³ O ganlyniad i gyfraith achosion yn *Re N* [2015]. Gweler Pennod 2 am fwy o fanylion.

wrth achosion gofal rhwng 2011/12 a 2019/20. Yn 2011/12, roedd glaslanciau'n cyfrif am 18% (neu 210) yn unig o'r holl blant mewn achosion gofal. Erbyn 2019/20, roedd hyn wedi cynyddu i 23% (neu 309). Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 47% yn nifer y glaslanciau sy'n destun achosion gofal yng Nghymru.

Ffigur 3: Cyfran y plant sy'n destun achos gofal a.31 yn ôl categori oedran ar ddechrau'r achos, fesul blwyddyn yng Nghymru



Mae Tabl 4 yn dangos y newid canrannol o un flwyddyn i'r llall yn nifer yr achosion gofal ar gyfer pob categori oedran. Fel yn Lloegr, mae'r cynnydd cyfartalog mwyaf o un flwyddyn i'r llall ymhlith glaslanciau, sef cyfradd cynnydd o 3%; er bod hyn ond ychydig yn uwch nag ar gyfer plant rhwng 5 a 9 oed.

O gymharu â Lloegr, mae glaslanciau'n cyfrif am gyfran ychydig yn is o'r holl blant mewn achosion gofal. Yn 2019/20, roedd glaslanciau'n cyfrif am 23% o'r holl blant yng Nghymru, o gymharu â 27% yn Lloegr. Mae'r cynnydd cyfartalog yn nifer y glaslanciau a oedd yn destun achosion gofal yn llai llym yng Nghymru hefyd (3%) o gymharu â Lloegr (8%), er nad yw'r gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol ($p > 0.05$).

Tabl 4: Newid o un flwyddyn i'r llall yn nifer y plant sy'n destun achos gofal a.31 yn ôl categori oedran ar ddechrau'r achos, Cymru

Oedran (blynnyddoedd)	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	Cyfartaledd
≤4	-0.1%	-15.1%	7.2%	9.8%	13.0%	-3.9%	-2.3%	-17.4%	-1.1%
5-9	19.6%	-35.1%	30.4%	-3.8%	21.5%	5.8%	-6.8%	-9.8%	2.7%
10-17	-18.6%	1.1%	20.1%	19.4%	26.3%	2.3%	-2.7%	-21.7%	3.3%
Cyfanswm	1.6%	-15.3%	15.1%	8.4%	18.3%	-0.2%	-3.3%	-16.8%	1.0%

Caiff cyfanswm nifer a chyfran y glaslanciau a fu'n destun achosion gofal dros amser eu crybwyll yn Nhabl 5 a Ffigur 4.¹⁴ Dros amser, bu cynnydd yn nifer y glaslanciau o


¹⁴ Sylwer: yn y dadansoddiad ar gyfer Cymru, mae glaslanciau 16 a 17 oed wedi'u cyfuno oherwydd y niferoedd isel a rheoli datgelu ystadegol.

bob oed sy'n destun achosion gofal. Fel yn Lloegr, mae mwyafrif yr achosion gofal yn ymwneud â glaslanciau iau. Mae cynnydd arbennig o amlwg ymhlith y rhai 14 a 15 oed, lle mae'r nifer wedi dyblu'n fras yn ystod y naw mlynedd diwethaf.

Mae nifer y rhai 16 a 17 oed sy'n destun achosion gofal wedi parhau'n isel yn ystod y cyfnod hwn.

Fel yn Lloegr, mae tystiolaeth o gynnydd penodol yn nifer y glaslanciau a ddaeth ynghlwm wrth achosion gofal rhwng 2014/15 a 2016/17 (gweler Ffigur 4). Eto, mae hyn yn cyd-fynd â newidiadau mewn arfer o ran trefniadau a.76 yng Nghymru, a chynnydd tebygol yn nifer yr achosion hyn a oedd yn dod gerbron y llysoedd. Mae'r data gofal cymdeithasol yn dangos gostyngiad yng nghyfran y plant mewn gofal dan drefniadau gwirfoddol, a ostyngodd o 21% o'r holl blant mewn gofal yn 2013/14 i 12% erbyn 2016/17 (StatsCymru 2021).

Ffigur 4: Nifer y glaslanciau sy'n destun achosion gofal yn ôl oedran ar ddechrau'r achos, fesul blwyddyn, Cymru



Tabl 5: Nifer y glaslanciau sy'n destun achosion gofal yn ôl oedran ar ddechrau'r achos, fesul blwyddyn, Cymru

Oedran (blynyddoe dd)	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	Cyfanswm
10	42 [19.2%]	24 [13.0%]	33 [16.9%]	40 [16.7%]	37 [12.8%]	65 [16.3%]	67 [16.5%]	68 [17.2%]	62 [19.2%]	438 [16.5%]
11	43 [19.6%]	38 [20.7%]	31 [15.9%]	47 [19.6%]	46 [15.9%]	55 [13.8%]	62 [15.3%]	60 [15.2%]	46 [14.2%]	428 [16.2%]
12	27 [12.3%]	30 [16.3%]	28 [14.4%]	35 [14.6%]	53 [18.3%]	68 [17.1%]	56 [13.8%]	46 [11.6%]	52 [16.1%]	395 [14.9%]
13	42 [19.2%]	36 [19.6%]	32 [16.4%]	38 [15.8%]	45 [15.6%]	70 [17.6%]	69 [17.0%]	76 [19.2%]	46 [14.2%]	454 [17.1%]
14	30 [13.7%]	29 [15.8%]	29 [14.9%]	42 [17.5%]	49 [17.0%]	62 [15.6%]	75 [18.5%]	67 [16.9%]	54 [16.7%]	437 [16.5%]
15	26 [11.9%]	20 [10.9%]	26 [13.3%]	22 [9.2%]	48 [16.6%]	57 [14.3%]	57 [14.1%]	59 [14.9%]	49 [15.2%]	364 [13.7%]
16-17	9 [4.1%]	7 [3.8%]	16 [8.2%]	16 [6.7%]	11 [3.8%]	21 [5.3%]	19 [4.7%]	20 [5.1%]	14 [4.3%]	133 [5.0%]
Cyfanswm	219 [100%]	184 [100%]	195 [100%]	240 [100%]	289 [100%]	398 [100%]	405 [100%]	396 [100%]	323 [100%]	2,649 [100%]


Cyfraddau mynychder

Gallai'r cynnydd yn nifer y glaslanciau sy'n destun achos a.31 adlewyrchu'r newidiadau ym maint poblogaeth y glaslanciau yng Nghymru a Lloegr. Felly, er mwyn archwilio a yw nifer y glaslanciau sy'n destun achosion gofal wedi cynyddu'n berthynol i boblogaeth ehangach y glaslanciau, cyfrifwyd cyfraddau mynychder yn ôl nifer y glaslanciau mewn achosion gofal fesul 10,000 o boblogaeth y glaslanciau. Bydd cyfraddau mynychder hefyd yn caniatáu cymariaethau ystyrlon ar draws ardaloedd gwahanol, drwy addasu ar gyfer maint y boblogaeth.

Caiff y cyfraddau mynychder ar gyfer Cymru a Lloegr eu crybwyll yn Nhabl 6. Yn y flwyddyn ddiweddaraf, roedd glaslanciau'n destun achosion gofal ar gyfradd o 11.6 fesul 10,000 yn Lloegr, ac 11.5 fesul 10,000 yng Nghymru.

Mae Ffigur 5 yn delweddu'r cynnydd yng nghyfradd y glaslanciau sy'n destun achosion gofal yng Nghymru a Lloegr. Mae'n dangos cynnydd llym rhwng 2012/13 a 2016/17, pan ddyblodd y gyfradd yn fras o 7.4 i 13.4, ac o 7.0 i 14.6 yn Lloegr a Chymru, yn ôl eu trefn. Mae Cymru a Lloegr yn dangos cyfraddau cymharol debyg o laslanciau mewn achosion gofal, ynghyd â phatrwm tebyg o ran cynnydd dros amser. Ymddengys bod cyfraddau yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol o 2015/16; fodd bynnag, maent wedi disgyn rhywfaint ers hynny i ddangos cyfraddau mynychder tebyg iawn ar draws Cymru a Lloegr yn 2019/20. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â babanod newydd-anedig mewn achosion gofal, lle mae Cymru'n dangos cyfraddau sylweddol uwch o gymharu â Lloegr dros amser (Pattinson et al. 2021), a phlant o bob oed (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2018).

Ffigur 5: Cyfraddau mynychder, achosion gofal fesul 10,000 o laslanciau yn y boblogaeth, Cymru a Lloegr



Tabl 6: Cyfraddau mynychder, achosion gofal fesul 10,000 o laslanciau yn y boblogaeth, Cymru a Lloegr

	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	Cyfanswm
Lloegr	6.1	7.0	7.4	8.2	10.4	13.4	13.5	12.5	11.6	8.4
Cymru	7.5	6.5	7.0	8.7	10.6	14.6	14.8	14.3	11.5	10.6

Rhywedd glaslanciau mewn achosion gofal

Archwiliom rywedd y glaslanciau a oedd yn destun achosion gofal hefyd. Yn gyffredinol, mae niferoedd tebyg o fechgyn a merched yn destun achosion gofal, gyda merched ychydig yn fwy tebygol o ddod ynghlwm ag achosion gofal na bechgyn yn Lloegr (51% o gymharu â 49%, ar gyfartaledd) a Chymru (52% o gymharu â 48%, ar gyfartaledd).

Amrywiad rhanbarthol


Ceir tystiolaeth o amrywiad rhanbarthol sylweddol mewn cyfraddau mynychder ar gyfer glaslanciau mewn achosion gofal ar draws Lloegr. Yn benodol, mae gan Ogledd-ddwyrain Lloegr gyfraddau mynychder sy'n amlwg yn uwch dros amser (gweler Ffigur 5 a Thabl B.5 yn Atodiad B). Bu'r amrywiad hwn yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr yn amlwg iawn er 2014/16. Erbyn 2019/20, y gyfradd yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr oedd 26.0 fesul 10,000, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 11.6 fesul 10,000. Mae hyn yn sylweddol uwch na Gogledd-orllewin Lloegr, sef y rhanbarth â'r gyfradd mynychder ail uchaf o 14.6 fesul 10,000 o laslanciau yn y boblogaeth. Yn ogystal, tra mae'r rhan fwyaf o ranbarthau wedi cofnodi mân ostyngiad yn y cyfraddau dros y ddwy flynedd diwethaf, mae cyfraddau yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr wedi parhau i gynyddu. Mae cyfraddau uwch yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr i'w gweld ar gyfer pob plentyn mewn achosion gofal (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2018) a babanod newydd-anedig (Pattinson et al. 2021) hefyd.

Nid yw'r rhesymau y tu ôl i'r amrywiad yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr yn glir, ac maent yn haeddu ymchwiliad pellach â rhanddeiliaid lleol. Mae'n bosibl y gellir esbonio'r amrywiad rhanbarthol yn rhannol drwy arferion gwahanol o ran defnyddio trefniadau a.20 ar gyfer glaslanciau. Mae data'r Adran Addysg yn dangos bod gan Ogledd-ddwyrain Lloegr un o'r cyfraddau isaf o blant sy'n derbyn gofal drwy drefniadau a.20, er nad yw'r data hwn wedi'i ddadansoddi yn ôl oedran (Yr Adran Addysg, 2021). Mae ymgynghoriad cychwynnol â rhanddeiliaid yn awgrymu y gallai effaith *Re N* [2015]—ochr yn ochr â *Re A* [2015] lle y beirniadwyd awdurdod lleol yng ngogledd-ddwyrain Lloegr yn drwm am ei ddefnydd o a.20—a arweiniodd at ostyngiad yn y defnydd o drefniadau a.20 yn genedlaethol, fod yn llym dros ben yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr. Er bod cyfraith achosion bellach wedi egluro'r arweiniad ar ddefnyddio a.20 (e.e. *Williams v LB Borough of Hackney* [2018], gweler Pennod 2 am ragor o wybodaeth), gallai fod amgyffrediad yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr o hyd bod y llysoedd yn annog peidio â'i defnyddio. Mae tystiolaeth anecdotaidd hefyd yn awgrymu y gallai fod disgwyliad yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr bod grwpiau o frodyr

a chwiorydd yn cael eu cynnwys yn yr achosion, a allai effeithio ar gyfraddau uwch o laslanciau mewn achosion os yw'r arfer hwn yn wahanol mewn lleoedd eraill.

Mae hefyd yn bwysig rhoi'r canfyddiad hwn yn y cyd-destun ehangach, lle gallai ffactorau fel amddifadedd lleol, bregusrwydd a datgeliad i risg amrywio. Yn flaenorol, mae ymchwil wedi dangos cysylltiad rhwng lefelau amddifadedd mewn ardal a chyfraddau achosion gofal (Bywaters et al. 2017; Johnson et al. 2020; Griffiths et al. 2020b). Mae gan Ogledd-ddwyrain Lloegr un o'r crynadau mwyaf o'r cymdogaethau mwyaf difreintiedig yn Lloegr, ac roedd gan y rhanbarth y cynnydd uchaf yng nghyfraddau tlodi plant rhwng 2014/15 a 2019/20 yn y DU (Dileu Tlodi Plant 2021). Fodd bynnag, nid yw amddifadedd ar ei ben ei hun yn esbonio pam roedd cyfraddau yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr gymaint yn uwch nag yng Ngogledd-orllewin Lloegr a Swydd Efrog a Humber – sef rhanbarthau sydd â lefelau tebyg o amddifadedd. Mae angen rhagor o ymchwil gydweithredol i archwilio pa ffactorau a all fod yn ysgogi cyfraddau uwch yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr. Gallai hyn gynnwys amrywiad yn y defnydd o drefniadau a.20, rôl amddifadedd, amrywiad ar lefel yr awdurdod lleol, penderfyniadau lleol a diwylliannau ymarfer wrth weithio â glaslanciau, ac argaeledd gwasanaethau ataliol i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd sydd ar gyrion gofal.

Ffigur 6: Cyfraddau mynychder, achosion gofal fesul 10,000 o laslanciau yn y boblogaeth, yn ôl rhanbarth, fesul blwyddyn, Lloegr



Mae hefyd yn werth sylwi bod gan Lundain un o'r cyfraddau uchaf o laslanciau mewn achosion gofal. Mae hyn yn cyferbynnu'n sylweddol â'r cyfraddau mynychder a nodwyd ar gyfer babanod newydd-anedig yn Pattinson et al. (2021), lle mae gan

Lundain gyfraddau mynychder sylweddol is o gymharu â phob rhanbarth arall yn Lloegr, gydag ychydig iawn o newid dros amser. Gallai fod nifer o esboniadau posibl ar gyfer hyn, gan gynnwys cysylltiad cynyddol â ffactorau risg alldeuluol i laslanciau yn Llundain. Mae gan Lundain un o'r niferoedd uchaf o bobl ifanc yn eu harddegau (13 i 17 oed) sy'n mynd i'r system ofal yn Lloegr (gan gynnwys dan a.20) (Clarke a Penington 2021), a'r nifer uchaf o blant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches mewn gofal (ACDS 2016). Er y bydd mwyafrif y plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches mewn gofal dan drefniadau a.20, ac felly heb eu cynnwys yn yr astudiaeth hon, gallai'r plant hyn fod yn destun achosion gofal mewn rhai achosion.

Mae pob rhanbarth yn dangos cynnydd cyffredinol mewn cyfraddau mynychder dros amser. Eto, ceir tystiolaeth o gynnydd sylweddol iawn rhwng 2014/15 a 2016/17 ar draws pob rhanbarth, sy'n cyd-fynd â'r newid mewn arfer mewn perthynas â llety gwirfoddol a.20, a chynnydd tebygol yn nifer y ceisiadau gofal. Gallai hyn esbonio pam y mae cynnydd amlwg iawn yn nifer y glaslanciau mewn achosion gofal yn ystod y cyfnod hwn, gan y byddai'r newid hwn wedi cael ei deimlo'n genedlaethol.

Amrywiad yn ôl ardal llys yng Nghymru


Yng Nghymru, archwiliwyd amrywiadau drwy gyfrifo cyfraddau mynychder yn nhair ardal y Barnwyr Teulu Dynodedig (DFJ). Mae'r uned dadansoddi hon yn wahanol i'r hyn a grybwyllwyd uchod ar gyfer Lloegr (rhanbarthau). Mae hyn oherwydd nad yw ffiniau rhanbarthol cyfwerth yn cael eu defnyddio mewn ystadegau swyddogol yng Nghymru.

Ceir gwahaniaethau o ran cyfraddau mynychder ar gyfer glaslanciau ar draws ardaloedd DFJ a thros amser (gweler Ffigur 7 a Thabl B.6 yn Atodiad B). Yn seiliedig ar gyfradd gyffredinol (ar gyfer y cyfnod o 2011/12 i 2019/20), cofnododd ardal DFJ Caerdydd a De-ddwyrain Cymru y gyfradd mynychder uchaf, sef 13.2 o achosion fesul 10,000. Dilynwyd hyn gan Ogledd Cymru, a oedd â chyfradd mynychder o 10.7 fesul 10,000. Abertawe a De-orllewin Cymru oedd â'r gyfradd isaf, sef 6.8 fesul 10,000.

Yn 2013/14, cofnododd pob ardal DFJ gyfraddau mynychder tebyg, sef tua 6.8 fesul 10,000 o laslanciau. Fodd bynnag, o'r adeg honno ymlaen, ceir tystiolaeth o wahaniaeth sylweddol ar draws y tair ardal. Dechreuodd cyfraddau gynyddu'n sylweddol yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru, ac yng Ngogledd Cymru. Yn benodol, ymddengys bod Caerdydd a De-ddwyrain Cymru wedi profi cynnydd cymharol 'unigryw' rhwng 2013/14 a 2014/15, ac eto rhwng 2015/16 a 2016/17, tra y bu'r cynnydd yn fwy cyson yng Ngogledd Cymru. I'r gwrthwyneb, bu'r gyfradd cynnydd yn arafach o lawer yn Abertawe a De-orllewin Cymru, gydag ychydig iawn o newid dros amser.

Mae hyn yn awgrymu bod angen archwilio'r hyn sy'n ysgogi newid ar lefel leol, gan gynnwys cysylltiad glaslanciau â ffactorau risg cyd-destunol, a sut mae arfer a phenderfyniadau yn ymwneud â glaslanciau'n wahanol ar draws ardaloedd ac awdurdodau lleol yng Nghymru.

Ffigur 7: Cyfraddau mynychder, achosion gofal fesul 10,000 o laslanciau yn y boblogaeth, fesul ardal DFJ, fesul blwyddyn, Cymru



Nodweddion achosion

Brodyr a chwiorydd

Mae mwyafrif helaeth y glaslanciau ynghlwm wrth achosion gofal gyda brodyr a chwiorydd (73% yn Lloegr; 72% yng Nghymru). Mae hyn yn uwch nag ar gyfer plant o bob oedran, lle mae tua 63%–64% mewn achosion gofal gyda brodyr a chwiorydd yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae hyn yn dangos y daw dros 25% o laslanciau'n rhan o achosion ar eu pennau eu hunain, lle mae'r pryder o ran lles yn disgyn yn gyfan gwbl â'r glaslanc. Hefyd, bu cynnydd yn nifer y glaslanciau sy'n dod yn rhan o achosion gofal ar eu pennau eu hunain dros amser. Mae'r duedd yn arbennig o amlwg o 2015/16 ymlaen. Mae hyn yn cyd-fynd â'r newid mewn arfer o ran trefniadau llety gwirfoddol a.20/a.76 a all, yn rhannol, esbonio'r cynnydd yn nifer yr achosion â glaslanciau unigol.

Mewn achosion yn cynnwys mwy nag un plentyn, nifer gyfartalog y plant oedd 2.2 yng Nghymru a Lloegr.


Hyd achosion

Mae Ffigurau 8 a 9 yn dangos tuedd tuag at achosion gofal byrrach i laslanciau yng Nghymru a Lloegr. Mae'r un duedd yn amlwg ymhlith plant o bob oed ar ôl cyflwyno'r amserlenni statudol o 26 wythnos ar gyfer achosion gofal dan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014.


Yn Lloegr, yn 2012/13, dim ond 23% o achosion glaslanciau a gwblhawyd cyn pen 26 wythnos; erbyn 2016/17, roedd hyn wedi cynyddu i 67%. O 2016/17 ymlaen, ymddengys bod tuedd ddisgynnol yng nghyfran yr achosion sy'n cael eu cwblhau cyn pen 26 wythnos, ddisgyn i 45% erbyn 2019/20.

Mae gwahaniaethau'n amlwg ymhlith poblogaeth y glasoed (gweler Ffigur 8). Mae gan laslanciau hŷn (15 oed neu'n hŷn) y gyfradd uchaf o achosion sy'n cael eu cwblhau cyn pen 26 wythnos yn gyson—gan gyrraedd dros 70% yn 2016/17—o gymharu â glaslanciau iau.

Ffigur 8: Cyfran achosion glaslanciau sy'n cael eu cwblhau cyn pen 26 wythnos, yn ôl categori oedran, fesul blwyddyn, Lloegr



Ffigur 9: Cyfran achosion glaslanciau sy'n cael eu cwblhau cyn pen 26 wythnos, yn ôl categori oedran, fesul blwyddyn, Cymru



Yng Nghymru, gwelir tuedd debyg tuag at gynyddu prydlondeb achosion gofal hyd at tua 2016/17, fel y gwelir yn Ffigur 9 uchod. Ar gyfartaledd, cwblhawyd 63% o achosion glaslanciau cyn pen 26 wythnos rhwng 2012/13 a 2019/20 – sef cyfran uwch o achosion nag yn Lloegr.

Yn 2012/13 a 2013/14, roedd gwahaniaethau amlwg o ran prydlondeb ymhlith poblogaeth y glaslanciau, gydag achosion glaslanciau hŷn yn cael eu cwblhau ynghynt – sef tuedd debyg i'r hyn a welwyd yn Lloegr. Fodd bynnag, yng Nghymru, ymddengys bod gwahaniaethau ymhlith poblogaeth y glaslanciau wedi culhau dros amser. Yn y flwyddyn ddiweddaraf (2019/20), nid oes llawer o wahaniaeth rhwng glaslanciau 10 i 14 oed a'r rhai 15 oed neu'n hŷn.

At ei gilydd, mae glaslanciau yng Nghymru a Lloegr yn profi achosion gofal byrrach na phlant iau. Nid yw'n amlwg pa effaith y mae hyd yr achosion yn ei chael ar ganlyniadau i laslanciau.

Canlyniadau gorchmynion cyfreithiol terfynol

Lloegr (2012/13 i 2019/20)

Mae Tabl 7 yn dangos categorïau'r gorchmynion cyfreithiol ar gyfer glaslanciau ar ddiwedd achosion gofal, yn ôl categori oedran.

Tabl 7: Canlyniadau gorchmynion cyfreithiol terfynol, fesul categori oedran, fesul blwyddyn, Lloegr

Oedran	Canlyniad terfynol	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
10-14	Mewn gofal	2,007 [61.2%]	2,214 [62.4%]	1,891 [61.5%]	2,151 [58.7%]	2,873 [61.3%]	2,927 [59.0%]	2,924 [60.2%]	2,579 [57.9%]
	Wedi'i osod i'w fabwysiadu	54 [1.6%]	45 [1.3%]	46 [1.5%]	44 [1.2%]	45 [1.0%]	49 [1.0%]	50 [1.0%]	36 [0.8%]
	Gydag aelodau'r teulu ⁱ	517 [15.8%]	634 [17.9%]	535 [17.4%]	719 [19.6%]	822 [17.5%]	1047 [21.1%]	1033 [21.3%]	1001 [22.5%]
	Gyda'i rieni	456 [13.9%]	485 [13.7%]	449 [14.6%]	558 [15.2%]	690 [14.7%]	699 [14.1%]	608 [12.5%]	592 [13.3%]
	Dim gorchymyn /Achos wedi'i dynnu'n ôl ⁱⁱ	211 [6.4%]	153 [4.3%]	139 [4.5%]	177 [4.8%]	234 [5.0%]	224 [4.5%]	230 [4.7%]	231 [5.2%]
	Arall	32 [1.0%]	17 [0.5%]	17 [0.6%]	15 [0.4%]	23 [0.5%]	19 [0.4%]	16 [0.3%]	14 [0.3%]
	Cyfanswm	3,277 [100.0%]	3,548 [100.0%]	3,077 [100.0%]	3,664 [100.0%]	4,687 [100.0%]	4,965 [100.0%]	4,861 [100.0%]	4,453 [100.0%]
15+	Mewn gofal	246 [45.1%]	389 [56.2%]	371 [56.1%]	423 [51.7%]	821 [60.5%]	808 [59.3%]	722 [57.0%]	644 [55.2%]
	Wedi'i osod i'w fabwysiadu	6 [1.1%]	7 [1.0%]	5 [0.8%]	5 [0.6%]	~	11 [0.8%]	11 [0.9%]	~
	Gydag aelodau'r teulu ⁱ	50 [9.2%]	66 [9.5%]	64 [9.7%]	96 [11.7%]	116 [8.5%]	159 [11.7%]	156 [12.3%]	156 [13.4%]
	Gyda'i rieni	86 [15.8%]	102 [14.7%]	88 [13.3%]	143 [17.5%]	190 [14.0%]	191 [14.0%]	185 [14.6%]	149 [12.8%]
	Dim gorchymyn /Achos wedi'i dynnu'n ôl ⁱⁱ	146 [26.7%]	118 [17.1%]	128 [19.4%]	146 [17.8%]	211 [15.5%]	184 [13.5%]	181 [14.3%]	198 [17.0%]
	Arall	12 [2.2%]	10 [1.4%]	5 [0.8%]	5 [0.6%]	~	10 [0.7%]	12 [0.9%]	~
	Cyfanswm	546 [100.0%]	692 [100.0%]	661 [100.0%]	818 [100.0%]	1,358 [100.0%]	1,363 [100.0%]	1,267 [100.0%]	1,167 [100.0%]

~ gwerth wedi'i guddio oherwydd niferoedd isel a rheoli datgelu ystadegol

Nodiadau: i) Mae'r categori hwn yn cynnwys plant a osodwyd gydag aelodau'r teulu dan orchymyn gwarcheidiaeth arbennig (SGO), gorchymyn trefniadau plentyn neu orchymyn preswyllo. O ystyried y mathau amryfal o orchymynion y gellir eu gwneud ar ddiwedd achos, lluniwyd y categorïau hyn gan yr ymchwilyr i adlewyrchu'r canlyniadau nodweddiadol i blant. Fodd bynnag, mae hefyd yn bosibl y gall plant gael eu gosod â pherthnasau neu eu rhieni dan orchymyn gofal. Mae manylion llawn am y categorïau a ddefnyddiwyd wedi'u cynnwys yn Nhabl 1. (ii) Mae hyn yn cynnwys achosion a ddaeth i ben â gorchymyn o ddim gorchymyn cyfreithiol terfynol neu lle cafodd yr achos ei dynnu'n ôl neu ei wrthod.


Mae hefyd yn bwysig nodi, er y bu'n bosibl archwilio'r amrywiad o ran canlyniad y gorchymyn cyfreithiol terfynol yn ôl oedran a rhyw, nid oedd modd archwilio'r amrywiad yn ôl ethnigrwydd â data Cafcass (gweler y Cyflwyniad). Mae ymchwil yn awgrymu bod plant Duon hŷn yn sylweddol fwy tebygol o gael eu rhoi mewn gofal na phlant o grwpiau ethnig eraill (Bywaters et al. 2019). Wrth i ansawdd data wella, bydd

yn bwysig ystyried sut mae canlyniadau plant yn wahanol yn ôl croestoriadau eu hunaniaeth, gan gynnwys eu hoedran, rhyw ac ethnigrwydd.

Ar draws poblogaeth gyfan y glaslanciau, nifer fach iawn o blant sy'n cael eu gosod i'w mabwysiadu ar ddiwedd yr achos (tuag 1%), nad yw'n syndod. Y canlyniad mwyaf cyffredin oedd gorchymyn gofal (gweler Ffigur 10). Yn 2011/12, roedd 61% o laslanciau iau (10 i 14 oed) yn destun gorchymyn gofal, ynghyd â 45% o laslanciau hŷn (15 oed neu'n hŷn).

Mae cyfran y glaslanciau iau sy'n destun gorchymyn gofal ar ddiwedd yr achos wedi parhau'n weddol gyson, gan amrywio o 58%–62% ar draws y cyfnod amser. Bu cynnydd amlwg yn nifer y plant a roddwyd ag aelodau'r teulu (dan orchymyn gwarcheidiaeth arbennig, gorchymyn trefniadau plentyn neu orchymyn preswyllo), gan godi o 16% i 23% dros amser. Mae hyn yn unol â chynnydd cyffredinol yn y defnydd o orchymynion gwarcheidiaeth arbennig i bob plentyn (Harwin et al. 2019). Mae cyfran y plant sy'n dychwelyd neu'n aros yng ngofal rhiant (dan orchymyn goruchwyllo) ar ddiwedd yr achos wedi parhau'n weddol gyson, sef tua 13%–15%.

Ffigur 10: Cyfran y categorïau gorchymynion terfynol, fesul categori oedran, fesul blwyddyn, Lloegr



Yn y categori **glaslanciau hŷn (15+)**, mae'r defnydd o orchymynion gofal wedi cynyddu dros amser, o 45% i 55% o achosion (gweler Ffigur 10). Caiff llai o lawer o laslanciau hŷn eu gosod ag aelodau'r teulu na glaslanciau iau.

Mae hefyd yn werth nodi y daw cyfran sylweddol o achosion gofal ar gyfer glaslanciau hŷn i ben heb roi gorchymyn cyfreithiol terfynol (h.y. caiff yr achos ei dynnu'n ôl neu ei wrthod), neu drwy roi gorchymyn dim gorchymyn. Er bod hyn wedi gostwng ychydig bach dros amser, dyma oedd yr ail ganlyniad mwyaf cyffredin ar gyfer glaslanciau hŷn ar ddiwedd yr achos (ar ôl gorchymyn gofal). Gwnaethom archwilio hyn ymhellach er mwyn deall yn well pa achosion a oedd yn fwyaf tebygol o ddod i ben heb orchymyn.

Roedd y data'n dangos mai glaslanciau 16 a 17 oed oedd yn fwyaf tebygol o beidio â chael gorchymyn cyfreithiol terfynol (o gymharu â'r rhai 15 oed), a oedd yn effeithio

ar bron i draean o laslanciau 16 oed neu'n hŷn mewn achosion gofal bob blwyddyn. Mae'r gyfran wedi gostwng ychydig bach dros amser o 36% o'r rhai 16 a 17 oed mewn achosion gofal yn 2011/12, i 31% yn 2019/20. Nid yw'r rhesymau am hyn yn glir ac maent yn cyfiawnhau ymchwil gydweithredol bellach. Mae'n bosibl y gallai'r grŵp hwn o blant 'heneiddio allan' o achosion, drwy gyrraedd 17 oed cyn i'r gorchymyn terfynol gael ei wneud, gan arwain at derfynu'r achos. Yn achos *Re Q [2019]*, crybwyllwyd y canlynol:

Pan nad yw'r awdurdodaeth i wneud gorchmynion cyfraith gyhoeddus interim a therfynol ar gael mwyach (h.y. pan fydd y plentyn yn cyrraedd 17 oed), mae angen i'r llys graffu'n ofalus ar amgylchiadau pob achos i ganfod a yw'r achos ei hun yn brin o deilyngdod a ph'un a yw'n gymesur ac er lles y plentyn iddo barhau. Mae'n debyg mai derfynu'r achos fydd y canlyniad cymesur, wedi'i ysgogi gan les mewn llawer o achosion tebyg ac, os felly, dylid caniatáu i'r awdurdod lleol dynnu ei gais yn ôl. Fodd bynnag, bydd rhai achosion lle y gallai diben ffforensig defnyddiol sydd wedi'i ysgogi gan les gael ei wasanaethu drwy barhau ag achos cyfraith gyhoeddus, ond hynny heb y strwythur a ddarperir gan orchmynion cyfraith gyhoeddus interim.

Serch hynny, mae nifer yr achosion lle mae'n ymddangos bod hyn wedi digwydd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn codi cwestiynau ynghylch y rhesymau dros gynnwys glaslanciau hŷn mewn achosion gofal, yn aml pan fetho popeth arall, a gallu'r system cyfiawnder teuluol – a'r gorchmynion cyfreithiol terfynol sydd ar gael – i fodloni eu hanghenion. Bydd hefyd yn bwysig ymchwilio i brofiad glaslanciau hŷn o achosion gofal pan nad oes gorchymyn yn cael ei wneud, effaith 'dim gorchymyn' ar argaeledd gwasanaethau cymorth, a chanlyniadau.

Archwiliom hefyd a yw'r plant hyn yn dod yn destun achosion ochr yn ochr â brodyr a chwiorydd iau. Mae'n bosibl y gallai plant hŷn ddod yn rhan o achosion gofal ochr yn ochr â brodyr a chwiorydd iau, gyda'r plentyn hŷn yn 'heneiddio allan' o'r achos gofal, fel yn *Re Q [2019]*. Roedd gan 80% o laslanciau 16 oed neu'n hŷn na chawsant ganlyniad terfynol ar ddiwedd yr achos frawd neu chwaer iau ynghlwm wrth eu hachos. Mae hyn ychydig yn uwch na chyfran gyffredinol yr achosion glaslanciau a oedd yn cynnwys brawd neu chwaer (74%). Fodd bynnag, nid yw hyn yn esbonio pob achos lle nad yw gorchymyn cyfreithiol yn cael ei wneud. Dylai ymchwil bellach archwilio'r canlyniadau ar gyfer brodyr a chwiorydd iau yn yr achosion hyn, ynghyd ag effaith canlyniadau cyfreithiol gwahanol ar berthnasodded teulu a brodyr a chwiorydd.

Mae hefyd yn werth nodi nifer y glaslanciau hŷn sy'n destun gorchymyn gofal, sy'n cynrychioli lefel sylweddol o ymyrraeth yn y glasoed hwyr. Archwiliom a oedd y plant hyn yn destun gorchmynion llety diogel hefyd. Dan Adran 25 (a.25) DP 1989, gellir ond gwneud gorchymyn llety diogel i blant sy'n destun gorchymyn gofal neu sydd wedi'u lletya dan a.20. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif (16% ar gyfartaledd) o laslanciau hŷn a gafodd orchymyn gofal a gorchymyn llety diogel yn yr un achos dros y cyfnod amser. Caiff glaslanciau sy'n destun ceisiadau am lety diogel eu harchwilio'n fanylach mewn gwaith yn y dyfodol.

Mae hefyd yn bosibl y rhoddir ystyriaeth i gefnogaeth i'r rhai sy'n gadael gofal wrth wneud gorchymyn gofal. Byddai hyn yn golygu bod gan y plentyn hawl i gefnogaeth tymor hwy wrth adael gofal dan a.23 ac a.24 y Ddeddf Plant (1989).

Nid oedd unrhyw wahaniaethau amlwg yng nghanlyniad y gorchymyn cyfreithiol terfynol yn ôl rhywedd.

Un o gyfyngiadau data Cafcass a Cafcass Cymru yw nad yw gwybodaeth am lleoliadau yn cael ei chofnodi ochr yn ochr â'r gorchymyn cyfreithiol, ar hyn o bryd. Felly, nid yw'n bosibl canfod y lleoliad terfynol i blant sy'n cael gorchymyn gofal, boed hynny gartref, gyda pherthnasau, mewn gofal maeth neu mewn gofal preswyl.

Cymru (2012/13 i 2019/20)

Yng Nghymru, mae mwyafrif y glaslanciau o bell ffordd yn destun gorchymyn gofal ar ddiwedd yr achos yn y categori oedran glaslanciau iau a hŷn, fel ei gilydd (gweler Ffigur 11). Yn 2014/15, roedd bron i 90% o'r holl laslanciau mewn achosion gofal yn destun gorchymyn gofal. Ar draws y cyfnod a arsylwyd, mae'r defnydd o orchymynion gofal wedi parhau'n gymharol gyson ar gyfer glaslanciau iau; bu cynnydd yng nghyfran y glaslanciau hŷn 15 oed neu'n hŷn sy'n destun gorchymyn gofal.

Tabl 8: Canlyniadau gorchymynion cyfreithiol terfynol, fesul categori oedran, fesul blwyddyn, Cymru


Oedran	Canlyniad terfynol	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
10-14	Mewn gofal	109 [83.8%]	135 [79.8%]	145 [83.3%]	182 [90.0%]	192 [83.5%]	243 [87.4%]	226 [89.0%]	167 [84.8%]
	Wedi'i osod i'w fabwysiadu	13 [10.0%]	9 [5.3%]	11 [6.3%]	5 [2.5%]	10 [4.3%]	~	~	~
	Gydag aelodau'r teulu	~	14 [8.2%]	13 [7.5%]	8 [4.0%]	18 [7.8%]	27 [9.7%]	21 [8.2%]	20 [10.2%]
	Gyda'i rieni	~	11 [6.5%]	5 [2.9%]	7 [3.5%]	10 [4.3%]	~	~	~
	Cyfanswm	130 [100%]	169 [100%]	174 [100%]	202 [100%]	230 [100%]	278 [100%]	254 [100%]	197 [100%]
15+	Mewn gofal	21 [70%]	27 [67.5%]	24 [72.7%]	39 [84.8%]	55 [88.7%]	58 [86.8%]	46 [83.6%]	37 [86%]
	Wedi'i osod i'w fabwysiadu	~	~	~	~	~	~	~	~
	Gydag aelodau'r teulu	~	~	~	~	~	~	~	~
	Gyda'i rieni	~	~	~	~	~	~	~	~
	Cyfanswm	30 [100%]	38 [100%]	33 [100%]	46 [100%]	62 [100%]	67 [100%]	55 [100%]	43 [100%]

Sylwer: ~ gwerth wedi'i guddio oherwydd niferoedd isel a rheoli datgelu ystadegol

Bu mân gynnydd yn nifer y rhai 10 i 14 oed a osodwyd gydag aelodau'r teulu, gan gynyddu o 8% yn 2013/14 i 10% yn 2019/20. Ymddengys bod lleoli gyda'r rhieni ac aelodau'r teulu ychydig bach yn llai cyffredin yng Nghymru nag yn Lloegr, er bod

tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y caiff gorchmynion gofal eu defnyddio mwy gartref yng Nghymru, a allai esbonio'r gwahaniaeth hwn.

Ffigur 11: Cyfran y categorïau gorchmynion terfynol, fesul categori oedran, fesul blwyddyn, Cymru



Sylwer: mae rhai gwerthoedd wedi'u cydio oherwydd niferoedd isel a rheoli datgelu ystadegol. Felly, mae'n bosibl nad yw'r cyfansymiau'n dod i 100%.

Nid oedd unrhyw wahaniaethau amlwg yng nghanlyniad y gorchymyn cyfreithiol terfynol yn ôl rhywedd.

Wrth gymharu Cymru a Lloegr, mae'n amlwg bod y defnydd o orchmynion gofal ar gyfer glaslanciau'n fwy cyffredin o lawer yng Nghymru. Hefyd, mae bron pob glaslanc sy'n destun achos gofal yng Nghymru yn cael gorchymyn ar ddiwedd yr achos. Roedd nifer y plant na chofnodwyd gorchymyn cyfreithiol terfynol ar eu cyfer yng Nghymru yn ddibwys. Fodd bynnag, wrth gymharu canlyniadau yng Nghymru a Lloegr, mae'n werth cofio bod nifer y glaslanciau mewn achosion gofal yng Nghymru yn gymharol fach, yn enwedig yn y categori oedran glaslanciau hŷn.

Argymhellion

Mae'r adroddiad hwn yn mesur y cynnydd yn nifer y plant hŷn a'r bobl ifanc ('glaslanciau') mewn achosion gofal dros amser yng Nghymru a Lloegr.

At ei gilydd, nid yw sbardunau'r cynnydd hwn yn glir, ac mae'n debygol o fod o ganlyniad i gyfuniad o ffactorau. Mae'n debygol bod y defnydd gostyngol o drefniadau gwirfoddol a.20 ac a.76 ar ôl *Re N* [2015] wedi arwain at gynnydd yn nifer y glaslanciau mewn achosion gofal, o ystyried y caiff trefniadau gwirfoddol eu defnyddio ar gyfer mwyafrif y glaslanciau sy'n mynd i'r system ofal (Clarke a Penington 2021). Bydd angen dadansoddi data a.20/a.76 ymhellach i archwilio hyn yn fanylach. Fodd bynnag, roedd cyfradd y plant hŷn a phobl ifanc mewn achosion gofal yn cynyddu yng Nghymru a Lloegr cyn 2015, ac mae'n debygol bod ffactorau eraill ar waith hefyd. Gallai hyn gynnwys mwy o ymwybyddiaeth o esgeulustod yn y glasoed (Stein et al. 2009; Raws 2016); a mwy o ymwybyddiaeth o risgiau 'allddeuluol', gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant a thrais gangiau, a deall sut i adnabod plant sydd mewn perygl (Thomas 2018; Hodges a Bristow 2019). Yn benodol, mae cyfres o ymchwiliadau proffil uchel ac adroddiadau ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant wedi arwain at ymwybyddiaeth gynyddol o fynychder camfanteisio'n rhywiol ar blant ac arweiniad ar adnabod plant sydd mewn perygl.¹⁵

Gallai ymwybyddiaeth gynyddol o gamfanteisio'n droseddol ar blant gyfrannu at nifer gynyddol y glaslanciau sy'n destun achosion gofal hefyd. Bu gostyngiad o 85% yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n dod yn gysylltiedig â'r system cyfiawnder ieuencid yn ystod y 10 mlynedd diwethaf (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2020a). Erbyn hyn, mae'n bosibl bod y plant hyn yn gysylltiedig â'r system amddiffyn plant. Yn ogystal, gallai anghenion iechyd meddwl heb eu bodloni, a'r prinder gwelyau iechyd meddwl cleifion mewnol i blant a phobl ifanc (Frith 2017) neu leoliadau amgen addas, fod yn cyfrannu at nifer gynyddol o laslanciau sy'n cael eu hatgyfeirio i wasanaethau plant mewn argyfwng.

Mae'r adroddiad hwn wedi dangos bod y cynnydd yn nifer y plant hŷn a'r bobl ifanc mewn achosion gofal yn amlwg ar draws ardaloedd lleol yng Nghymru a Lloegr, er bod rhai ardaloedd wedi gweld cyfradd cynnydd uwch. Felly, dylai pob ardal leol roi blaenoriaeth i ddatblygu ymateb amlasiantaeth i ddeall a bodloni anghenion glaslanciau, drwy gydweithio ar draws gwasanaethau plant, llysoedd teulu, yr heddlu, cyfiawnder ieuencid, iechyd meddwl ac ysgolion. Ar hyn o bryd, bu llond llaw o ardaloedd lleol ar y blaen o ran arbrofi â dulliau newydd o weithio â glaslanciau mewn angen (gweler er enghraifft Sebba et al. 2017; Firmin, Wroe, a Lloyd 2019; Holmes a Smale 2018); mae angen gwerthuso a rhannu'r arfer gorau hwn yn genedlaethol.

¹⁵ Er enghraifft: Ymchwiliad Annibynnol i Cam-drin Plant yn Rhywiol 2018; Ymchwiliad Annibynnol i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn Rotherham 2014; Ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Plant i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant mewn Gangiau a Grwpiau 2013.

Mae gan y cynnydd yn nifer y glaslanciau sy'n dod yn rhan o'r system ofal drwy achosion gofal oblygiadau o ran gofalu am boblogaeth y plant mewn gofal hefyd. Mae mwyafrif y glaslanciau mewn achosion gofal yn destun gorchymyn gofal, a gallai fod angen lleoliadau gofal maeth neu ofal preswyl arnynt. Mae angen sicrhau bod digon o leoliadau addas, yn enwedig ar gyfer glaslanciau hŷn.

Blaenoriaethau ar gyfer ymchwil yn y dyfodol

Mae angen ymchwil bellach i ddeall yn well taflwybrau plant hŷn a phobl ifanc i'r system cyfiawnder teuluol, a'u canlyniadau ar ôl dod i gysylltiad â'r system. Mae'r adroddiad hwn wedi amlygu rhai meysydd lle y byddai ymchwil gydweithredol bellach a sgysiaau â rhanddeiliaid yn werthfawr dros ben o ran llywio polisi ac arfer.

- Mae'n amlwg bod angen edrych ar y defnydd o drefniadau a.20/a.76 ar gyfer glaslanciau, ochr yn ochr â'r rhai sy'n destun achosion gofal. Trwy ganolbwyntio ar laslanciau mewn achosion gofal, nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys cyfran fawr o'r holl laslanciau yn y system ofal, gan gynnwys ceiswyr lloches ar eu pennau eu hunain. Mae angen gwaith pellach i ddeall i ba raddau y mae newidiadau o ran arfer yn ymwneud â threfniadau a.20/a.76 wedi bod yn ffactor yn y cynnydd yn nifer y glaslanciau mewn achosion gofal, yr amrywiad rhanbarthol yn y defnydd o a.20/a.76, a'r gwahaniaethau o ran nodweddion ac anghenion y glaslanciau mewn achosion gofal o gymharu â'r rhai sydd â threfniadau gwirfoddol.
- Gwnaethom nodi gwahaniaethau rhanbarthol amlwg yng nghyfraddau'r glaslanciau sy'n destun achosion gofal. Yn benodol, mae cyfraddau uwch amlwg yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr. Bydd deall yr amrywiad hwn yn fanylach, gan gynnwys ar lefel yr awdurdod lleol a'r ffactorau amryfal sydd ar waith – gan gynnwys arfer proffesiynol, y gwasanaethau ataliol sydd ar gael, a rôl amddifadedd – yn bwysig er mwyn galluogi gwasanaethau i ymateb i anghenion lleol yn well.
- Mae'r adroddiad hwn wedi nodi angen penodol i ddeall y rhesymau pam y mae nifer gynyddol o laslanciau hŷn (15 oed neu'n hŷn) yn dod ynghlwm wrth achosion gofal, a'u canlyniadau ar ôl yr achosion hynny. Mae angen edrych y tu hwnt i'r ystadegau hyn ar y rhesymau pam y mae plant hŷn yn dod ynghlwm wrth achosion gofal, manylion am bryderon diogelu a ffactorau risg, a'r hyn y mae cynlluniau gofal yn ei gynnig. Gellid cyflawni hyn drwy adolygiad manwl o ffeiliau achos o sampl gynrychioliadol o laslanciau hŷn. Hefyd, mae angen dybryd i ddeall profiadau glaslanciau eu hunain o'r system cyfiawnder teuluol.
- Mae angen gwaith pellach hefyd i ddeall y ffactorau sy'n arwain at y cynnydd yn nifer y glaslanciau sy'n dod yn rhan o achosion gofal, gan gynnwys ymchwilio i'r gorgyffyrddiad rhwng y systemau teulu, cyfiawnder ieuenctid ac iechyd meddwl, a'r defnydd o lety diogel ac amddifadu o ryddid dan yr awdurdodaeth gynhenid i letya glaslanciau ag anghenion cymhleth. Bydd hyn yn mynnu protocolau rhannu data gwell rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder (cyfiawnder teuluol a chyfiawnder ieuenctid) a'r Adran Iechyd, er mwyn gallu manteisio ar ddata. Hefyd, gallai fod yn ddefnyddiol dysgu oddi wrth awdurdodaethau eraill – er enghraifft, y System Gwrandawriadau Plant yn yr Alban, lle caiff achosion amddiffyn plant a chyfiawnder plant eu hintegreiddio mewn un system.

- Yn yr adroddiad hwn, ni fu'n bosibl archwilio anghyfartaledd ethnig yng nghyfraddau'r glaslanciau sy'n dod yn rhan o achosion gofal. Rydym yn argymhell y dylai hyn fod yn flaenoriaeth ar gyfer ymchwil yn y dyfodol. Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield a'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol yn cydweithio â Cafcass a darparwyr data eraill i wella'r gwaith o gofnodi data ethnigrwydd mewn setiau data gweinyddol.

Rhestr achosion

- A (Plentyn), Re (Rev 1) [2015] EWFC 11
- N (Plant) (Mabwysiadu: Awdurdodaeth) [2015] EWCA Civ 1112
- Q (Plentyn - Gorchymyn Gofal Interim - Awdurdodaeth), Re [2019] EWHC 512 (Fam)
- R (G) v London Borough of Southwark [2009] UKHL 26
- *Williams v The London Borough of Hackney* [2018] UKSC 37
- Z (Plentyn: Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid: Diffyg Lleoliad Diogel) [2020] EWHC 1827

Cyfeiriadau

Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant (ADCS). (2013). *What is care for? Alternative models of care for adolescents. ADCS position statement*. Manceinion: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant.

ADCS. (2016). *Unaccompanied asylum seeking and refugee children*. Manceinion: ADCS.

ADCS. (2021). *Safeguarding pressures phase 7*. Manceinion: Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant.

ADCS, Cafcass ac ADSS Cymru. (2016). *Practice guidance for the use of s20 provision in the Children Act 1989 in England and the equivalent of s76 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 in Wales*. Ar gael yn: https://adcs.org.uk/assets/documentation/S20_Practice_Guidance_final.pdf [Cyrchwyd 2 Mehefin 2021].

Alrouh, B., Broadhurst, K., Cusworth, L., Griffiths, L., Johnson, R.D., Akbari, A., a Ford, D. (2019). *Mewn gofal o'u geni: Babanod newydd-anedig a phlant bach mewn achosion gofal yng Nghymru*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Alrouh, B., Broadhurst, K., a Cusworth, L. (2020). *Menywod mewn achosion gofal mynych yng Nghymru: adroddiad meincnodi cyntaf*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

- Bedston, S.J., Pearson, R.J., Jay, M.A., Broadhurst, K., Gilbert, R. a Wijlaars, L. (2020). Data resource: Children and Family Court Advisory and Support Service (Cafcass) public family law administrative records in England. *International Journal of Population Data Science*, Cyfrol 5, Rhif 1.
- Broadhurst, K., Alrouh, B., Mason, C., Ward, H., Holmes, L. Ryan, M. et. al. (2018). *Born into care: Newborns in care proceedings in England*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.
- Bywaters, P., Kwhali, J., Brady, G., Sparks, T., a Bos, E. (2017). Out of sight, out of mind: Ethnic inequalities in child protection and out-of-home care intervention rates. *British Journal of Social Work*, 47(7), tt. 1884–1902.
- Bywaters, P., Scourfield, J., Webb, C., Morris, K., Featherstone, B., Brady, G., et al. (2019). Paradoxical evidence on ethnic inequities in child welfare: Towards a research agenda. *Children and Youth Services Review* 96, tt. 145–154.
- Swyddfa'r Comisiynydd Plant (CCO) (2019). *Stability index 2019: Technical report*. Llundain: Comisiynydd Plant Lloegr.
- CCO (2020a). *Who are they? Where are they? Children locked up*. Llundain: Comisiynydd Plant Lloegr.
- CCO (2020b). *Teenagers falling through the gaps*. Llundain: Comisiynydd Plant Lloegr.
- Clarke, T. a Penington, E. (2021) *Characteristics of children entering care for the first time as teenagers*. Llundain: Comisiynydd Plant Lloegr.
- Cusworth, L. et al. (2020). *Datgelu cyfraith teulu breifat: Pwy sy'n dod i'r llys yng Nghymru?* Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.
- Cusworth, L. et al. (2021). *Uncovering private family law: Who's coming to court in England?* Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.
- Yr Adran Addysg. (DfE). (2014). *Rethinking support for adolescents in or on the edge of care*. Llundain: Yr Adran Addysg.
- DfE. (2020a). Outcomes for children looked after by local authorities in England, 31 March 2019: additional tables [ar-lein]. *National statistics*. Ar gael yn: <https://explore-education-statistics.service.gov.uk/find-statistics/children-looked-after-in-england-including-adoptions/2020> [Cyrchwyd 1 Ebrill 2021].
- DfE. (2020b). Children looked after in England including adoptions [ar-lein]. *National statistics*. Ar gael yn: www.gov.uk/government/statistics/characteristics-of-children-in-need-2019-to-2020 [Cyrchwyd 1 Ebrill 2021]
- Firmin, C. (2017) Contextual risk, individualised responses: an assessment of safeguarding responses to nine cases of peer-on-peer abuse, *Child Abuse Review*, Cyfrol 27, Rhifyn 1, tt. 42–57.

Firmin, C., Wroe, L., a Lloyd, J. (2019). *Safeguarding and exploitation: complex, contextual and holistic approaches*. Dartington: Research in Practice.

Firmin, C. a Lloyd, J. (2020). *Contextual safe-guarding: A 2020 update on the operational, strategic and conceptual framework*. Luton: Prifysgol Swydd Bedford.

Ford, D.V., Jones, K.H., Verplancke, J.P., Lyons, R.A., John, G., Brown, G., et al. (2009). The SAIL Databank: building a national architecture for ehealth research and evaluation. *BMC Health Services Research*, 9:157.

Forty, R. a Sturrock, R. (2017). *Using family court data to explore links between adverse family experiences and proven youth offending*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Frith, E. (2017). *Inpatient provision for children and young people with mental health problems*. Llundain: Education Policy Institute.

Fuhrmann, D., Knoll, L. J., a Blakemore, S. J. (2015). Adolescence as a sensitive period of brain development. *Trends in cognitive sciences*, 19(10), tt. 558–566.

Griffiths, L.J. et al. (2020a). *Mewn gofal o'u geni: Mil o famau mewn achosion gofal yng Nghymru*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Griffiths, L.J., Johnson, R.D., Broadhurst, K., Bedston, S., Cusworth, L., Alrouh, B., et al. (2020b). Maternal health, pregnancy and birth outcomes for women involved in care proceedings in Wales: a linked data study. *BMC pregnancy and childbirth*, 20(1), tt. 1–13.

Hanson, E. a Holmes, D. (2014). *That difficult age: Developing a more effective response to risks in adolescence*. Dartington: Research in Practice.

Harwin, J., Alrouh, B., Golding, L., McQuarrie, T., Broadhurst, K. a Cusworth, L. (2019). *The contribution of supervision orders and special guardianship to children's lives and family justice*. Caerhirfryn: Y Ganolfan Ymchwil Plant a Theuluoedd a Phrifysgol Caerhirfryn.

Hodges, H. a Bristow, D. (2019). *Dadansoddiad o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y cyfraddau uchel o ofal yng Nghymru*. Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Holmes, D. a Smale, E. (2018). *Transitional safeguarding: adolescence to adulthood*. Dartington: Research in Practice.

Johnson, R.D., Ford, D.V., Broadhurst, K., Cusworth, L., Jones, K.H., Akbari, A., et al. (2020). Data resource: population level family justice administrative data with opportunities for data linkage. *International Journal of Population Data Science*, Cyfrol 5, Rhif 1.

Jones, K.H., Ford, D.V., Jones, C., D'Silva, R., Thompson, S., Brooks, C.J., et al. (2014). A case study of the Secure Anonymous Information Linkage (SAIL) Gateway: a privacy-protecting remote access system for health-related research and

evaluation, *Journal of Biomedical Informatics: special issue on medical data privacy*, 50.

Jones, K.H., Ford, D.V., Thompson, S., a Lyons, R.A. (2019). A Profile of the SAIL Databank on the UK Secure Research Platform. *International Journal of Population Data Science*, Rhifyn 2, Cyfrol 4.

Lushey, C., Hyde-Dryden, G., Holmes, L. a Blackmore, J. (2017). *Evaluation of the No Wrong Door Innovation Programme*. Llundain: Yr Adran Addysg.

Lyons, R.A., Jones, K.H., John, G., Brooks, C.J., Verplancke, J.P., Ford, D.V., et al. (2009). The SAIL databank: linking multiple health and social care datasets. *BMC Medical Informatics and Decision Making*, Cyfrol 9, Erthygl rhif 3.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ). (2018). The children in family justice data share – Who are the children? Offeryn (WATCH) [ar-lein]. Llundain: MoJ. Ar gael yn: <https://public.tableau.com/profile/moj.analysis#!/vizhome/ChildreninFamilyJusticeWhoAreTheChildrenTool/FrontPage> [Cyrchwyd 5 Chwefror 2021].

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) (2020a). *Youth Justice Statistics 2018/19 England and Wales*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ). (2020b). Family court statistics quarterly [ar-lein]. GOV.UK. Ar gael yn: www.gov.uk/government/collections/family-court-statistics-quarterly [Cyrchwyd 5 Chwefror 2021].

Pattinson, R. et al. (2021). *Born into care: 22,000 newborns in short-notice care proceedings in England and Wales*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Patton, G.C., Sawyer, S.M., Santelli, J.S., Ross, D.A., Afifi, R., Allen, N.B., et al. (2016). Our future: a Lancet commission on adolescent health and wellbeing. *The Lancet*, 387(10036), tt. 2423–2478.

Y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus (PLWG) (2021). *Recommendations to achieve best practice in the child protection and family justice systems*. Adroddiad terfynol. Ar gael yn: <https://www.judiciary.uk/publications/message-from-the-president-of-the-family-division-publication-of-the-presidents-public-law-working-group-report/> [Cyrchwyd 2 Mehefin 2021]

Raws, P. (2016). *Parenting matters. The first report from a new research programme on adolescent neglect*. Llundain: Cymdeithas y Plant.

Rehill, J. a Roe, A. (2021). *What do we know about children in the family justice system? Supplementary guidance note on infographic data sources, February 2021*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Sawyer, S. M., Azzopardi, P. S., Wickremarathne, D., a Patton, G. C. (2018). The age of adolescence. *The Lancet Child & Adolescent Health*, 2(3), tt. 223–228.

Sebba, J., Lukke, N., McNeish, D., a Rees, A. (2017). *Children's Social Care Innovation Programme*. Final evaluation report. Llundain: Yr Adran Addysg.

StatsCymru. (2021). Plant sy'n derbyn gofal a chymorth [ar-lein]. *StatsCymru*. Ar gael yn: <https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/childrenreceivingcareandsupport> [Cyrchwyd 1 Ebrill 2021].

Stein, M., Rees, G., Hicks, L. a Gorin, S. (2009). *Neglected Adolescents – Literature Review, Research Brief*. Llundain: Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd.

Thomas, C. (2018). *The Care Crisis Review: Factors contributing to national increases in numbers of looked after children and applications for care orders*. Llundain: Family Rights Group.

Williams, A., Wood, S., Warner, N., Cummings, A., Hodges, H., El-Banna, A., et al. (2020). *Unlocking the facts: Young people referred to secure children's homes*. Llundain: What Works for Children's Social Care.

Atodiad A: Methodolog

Cynllun yr astudiaeth

Trwy ganolbwyntio ar laslanciau (rhwng 10 a 17 oed) sy'n destun achosion gofal a.31, mae'r astudiaeth hon yn dadansoddi tueddiadau yn nifer yr achosion gofal a nodweddion yr achosion rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2020 yng Nghymru a Lloegr. Ei nod yw meintioli tueddiadau yn ymwneud â'r canlynol:

- nifer a chyfran y glaslanciau sy'n destun achosion gofal o gymharu â'r holl blant
- cyfraddau'r ceisiadau ar draws Cymru a Lloegr yn eu cyfanrwydd ac ar draws y naw rhanbarth yn Lloegr, a thair ardal llysoedd y barnwyr teulu dynodedig (DFJ) yng Nghymru
- nifer y brodyr a chwiorydd sydd ynghlwm wrth achos; hyd yr achos; a phatrwm y gorchmynion cyfreithiol a wnaed dros amser.

Ffynonellau data

Y brif ffynhonnell ddata ar gyfer yr astudiaeth hon yw data rheoli achosion electronig sy'n cael ei lunio fel mater o drefn gan Cafcass a Cafcass Cymru, a gedwir yn ddiogel ym Manc Data SAIL at ddibenion ymchwil (Ford et al. 2009; Lyons et al. 2009; Jones et al. 2014; Jones et al. 2019;).¹⁶ Mae Cafcass a Cafcass Cymru ynghlwm wrth bob achos cyfraith gyhoeddus sy'n ymwneud â phlant (gweler Bedston et al. 2020 a Johnston et al. 2020 am ragor o fanylion am ddata Cafcass).

Cynhwyswyd pob achos gofal a.31 a ddechreuodd rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2020 yng Nghymru a Lloegr (gweler Bedston et al. 2020 a Johnson et al. 2020 am ragor o wybodaeth am ddata Cafcass a Cafcass Cymru). Nid oes data o ansawdd digonol ar gyfer ymchwil ar gael cyn 2011 yng Nghymru; eithriwyd data cynharach ar gyfer Lloegr i alinio'r canlyniadau ar gyfer Cymru a Lloegr er mwyn gallu eu cymharu. Gwybodaeth berthnasol a gynhwyswyd am yr achos: wythnos geni a rhywedd y plentyn, dyddiad cyhoeddi'r cais a.31, awdurdod lleol, ardal llys, dyddiad a'r math o orchymyn cyfreithiol terfynol. Dadansoddwyd yr achosion ar lefel y plentyn.

Yn ogystal, defnyddiwyd amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn sydd ar gael yn gyhoeddus, a luniwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), i gyfrifo'r cyfraddau mynychder.

¹⁶ Mae Banc Data SAIL yn cynnwys cyfoeth o ddata iechyd a gweinyddol dienw, sydd ar gael drwy blatfform rhannu data diogel. Mae pob cynnig i ddefnyddio data SAIL yn destun adolygiad a chymeradwyaeth gan IGRP. Caiff yr holl ddata ym Mhorth SAIL ei drin yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 ac yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Sampl ddadansoddi a'r cyfnod amser

Crëwyd dwy sampl i'w dadansoddi.

Roedd y sampl gyntaf yn cynnwys yr holl gofnodion ar lefel plant a oedd yn ymwneud ag achosion gofal a.31 a ddechreuodd yn ystod y cyfnod amser a ddisgrifir uchod. Darparodd hyn gyfnod arsylwi wrtholygol o naw blynedd (2011/12 i 2019/20) yn cynnwys yr holl blant a ddaeth ynghlwm wrth achosion a.31 bob blwyddyn yn Lloegr (n=189,867 o achosion plant; yr oedd 54,509 ohonynt yn laslanciau) a Chymru (n=12,342; yr oedd 2,649 ohonynt yn laslanciau) (gweler Tabl B.1 a B.2). Defnyddiwyd y sampl hon i ddadansoddi nifer a chyfran yr achosion glaslanciau dros amser, rhywedd y plant, cyfrifo cyfraddau mynychder ar gyfer glaslanciau sy'n destun achosion gofal dros amser, ac amlygu cyfran y glaslanciau sy'n rhan o achosion gyda'u brodyr a chwiorydd.

Roedd yr ail sampl yn cynnwys yr holl achosion glaslanciau a oedd wedi cau ac y cofnodwyd gorchymyn cyfreithiol terfynol dilyn ar eu cyfer rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2020.¹⁷ Rhaid i'r achosion fod yn gyflawn er mwyn gallu ymchwilio i ganlyniadau'r achosion. Ar gyfer gorchmynion cyfreithiol, hyd y cyfnod arsylwi oedd 8 blynedd, a oedd yn cynnwys yr holl achosion a.31 a oedd yn ymwneud â glaslanciau bob blwyddyn yn Lloegr (n=40,666 o achosion) a Chymru (n=2,309 o achosion). Defnyddiwyd y sampl hon i gyfrifo hyd yr achosion a chategoriâu canlyniadau'r gorchmynion cyfreithiol.

Curadu data a newidynnau a bennwyd

Pennwyd newidynnau i ateb y cwestiynau ymchwil o'r data crai a gasglwyd gan Cafcass a Cafcass Cymru a adnewydd ym Manc Data SAIL. Roedd hyn yn dilyn methodoleg debyg i'r hyn a bennwyd yn Pattinson et al. (2021) ac Alrouh et al. (2019). Arweiniodd Dr Bachar Alrouh ar guradu'r set ddata ar gyfer yr adroddiad hwn.

Oedran y plentyn: cyfrifwyd oedran y plentyn ar ddechrau'r achos gofal gan ddefnyddio wythnos geni'r plentyn a'r dyddiad y cyflwynwyd y cais a.31. Diffiniwyd glaslanciau fel plant rhwng 10 a 17 oed.

Cyfraddau mynychder: defnyddiwyd amcangyfrifon poblogaeth a gynhyrchwyd gan ONS i gyfrifo'r cyfraddau mynychder fesul blwyddyn ar gyfer grŵp oedran y glasoed. Cyfrifwyd cyfraddau mynychder ar gyfer Cymru a Lloegr, y naw rhanbarth yn Lloegr a thair ardal y llysoedd DFJ yng Nghymru.

Rhanbarthau Lloegr: ar gyfer yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r nawr rhanbarth yn Lloegr, sy'n cynnwys grwpiau o awdurdodau lleol, fel y'i defnyddir gan yr Adran Addysg (DfE) ac ONS. Mae'r naw rhanbarth yn Lloegr fel a ganlyn: Gogledd-ddwyrain Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr, Swydd Efrog a Humber,

¹⁷ Yn ystod y cyfnod hwn, roedd data coll ar gyfer Lloegr yn finimol (>1%). Roedd lefelau data coll yn uwch ar gyfer Cymru (11.4% ar gyfartaledd ar draws y cyfnod o wyth blynedd). Gweler Atodiad C am dablau data coll.

Gorllewin Canolbarth Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Dwyrain Lloegr, Llundain, De-ddwyrain Lloegr a De-orllewin Lloegr.

Ardaloedd y llysoedd yng Nghymru: Cafodd yr awdurdodau lleol yng Nghymru eu mapio i dair ardal y llysoedd DFJ yng Nghymru, fel a ganlyn:

- Gogledd Cymru: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam
- Abertawe a De-orllewin Cymru: Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Powys, Sir Gâr, Sir Benfro a Cheredigion¹⁸
- Caerdydd a De-ddwyrain Cymru: Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Casnewydd, Caerffili, Torfaen, Blaenau Gwent a Sir Fynwy.

Brodyr a chwiorydd: roedd y data i'w ddadansoddi ar lefel y plentyn. Er mwyn gallu amlygu a oedd plentyn arall wedi'i gynnwys yn yr achos, ailstrwythurwyd y data ar lefel yr achos, gan ddefnyddio rhif adnabod yr achos a gofnodwyd gan Cafcass. Roedd hyn yn caniatáu i ni amlygu nifer y plant a oedd wedi'u cynnwys yn destun i'r achos. Crëwyd newidyn i amlygu a oedd achos plentyn yn cynnwys mwy nag un plentyn. Nid yw Cafcass yn cofnodi'r berthynas rhwng plant; fodd bynnag, at ddibenion y dadansoddiad hwn, tybiwyd bod plant a oedd wedi'u cynnwys yn yr un achos yn frodyr a chwiorydd.

Hyd yr achos: cyfrifwyd hyd yr achos fel nifer yr wythnosau rhwng dyddiad cyflwyno'r cais a.31 a dyddiad y gorchymyn cyfreithiol terfynol.

Data'r gorchymyn cyfreithiol: diffiniwyd gorchmynion cyfreithiol terfynol fel y gorchmynion a wnaed yng ngwrandawriad terfynol yr achos gofal, a oedd yn ddigon i Cafcass gau'r achos.

Roedd angen lleihau data'r gorchmynion cyfreithiol terfynol, o ystyried cyfuniadau amryfal y gorchmynion y gellir eu gwneud ar gyfer plant ar ddiwedd yr achos. Trwy symleiddio'r data hwn, gwnaethom sicrhau hefyd y cafodd plant eu cyfrif unwaith yn unig. Crëwyd categorïau gorchmynion sy'n adlewyrchu'r canlyniadau nodweddiadol i blant ar ddiwedd achosion gofal (gweler Tabl A.1). Mae hyn yn dilyn yr un protocol a amlinellwyd yn Alrouh et al. (2019).

¹⁸ Mae Gogledd Powys yn ardal DFJ Gogledd Cymru, a De Powys yn ardal DFJ Abertawe a De-orllewin Cymru. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl dadelfennu achosion Gogledd Powys a De Powys. At ddibenion dadansoddi, mae holl achosion Powys wedi'u cynnwys yn ardal DFJ Abertawe a De-orllewin Cymru.

Tabl A.1: Categoriâu canlyniadau gorchmynion cyfreithiol

Gorchymyn cyfreithiol (fel y cofnodwyd gan Cafcass)	Categori'r gorchymyn cyfreithiol (a bennwyd gan y tîm ymohwil)
Gorchymyn gofal	Mewn gofal
Gorchymyn lleoli	Wedi'i osod i'w fabwysiadu
Gorchymyn mabwysiadu	
Gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig	Gydag aelodau'r teulu*
Gorchymyn trefniadau plentyn	
Gorchymyn preswyllo	
Gorchymyn goruchwyllo	Gyda'i rieni
Gorchymyn cymorth teulu	
Cais wedi'i nacáu/gwrthod/atal dros dro	Dim gorchymyn/
Gorchymyn dim gorchymyn	achos wedi'i dynnu'n ôl
Gorchymyn heb ei wneud	
Pob gorchymyn arall (e.e. gorchymyn amddiffyn brys, gorchymyn adfer, gorchymyn llety diogel)	Arall

Sylwer: *Gall plant gael eu rhoi ag aelodau'r teulu, cyfeillion i'r teulu neu ofalwyr maeth hirdymor dan orchymyn gwarcheidiaeth arbennig. Rydym yn defnyddio'r term 'gydag aelodau'r teulu' i gwmpasu'r achosion hyn.

Un o gyfyngiadau data Cafcass yw nad yw gwybodaeth am y lleoliad terfynol yn cael ei chofnodi. Yn niffyg data manwl gywir ar leoliadau, gallwn ond dod i gasgliad ynghylch lleoliad parhaol gwirioneddol y plentyn ar sail y gorchymyn cyfreithiol terfynol. Mae hwn yn gyfyngiad anorfod ac mae wedi'i amlygu ym mhrif gorff yr adroddiad.

Data coll: mae lefelau'r data coll wedi'u crybwyll yn Atodiad C.

Proses ddadansoddol

Roedd dadansoddi data'n cynnwys cyfrifo ystadegau disgrifiadol, gan gynnwys amllder, cyfrannau a chyfraddau mynychder. Cyfrifwyd amllder a chyfrannau er mwyn deall nifer y glaslanciau mewn achosion gofal fel cyfran o'r holl blant sy'n destun achosion gofal, a nifer yr achosion glaslanciau yn y llysoedd teulu. Mae cyfraddau mynychder yn rhoi darlun mwy eglur o'r tebygolrwydd y daw glaslanciau yn y boblogaeth gyffredinol yn destun achosion gofal. Defnyddiwyd cyfraddau mynychder hefyd i ymchwilio i'r amrywiad rhwng rhanbarthau yn Lloegr a'r ardaloedd DFJ yng Nghymru, gan alluogi cymariaethau ystyrlon ar draws ardaloedd â meintiau poblogaeth gwahanol.

Cyfrifwyd ystadegau disgrifiadol hefyd i ddisgrifio amllder canlyniadau gorchmynion cyfreithiol yn erbyn y categorïau a diffiniwyd uchod, cyfran achosion y glaslanciau sy'n cynnwys brodyr a chwiorydd, a chyfrifo hyd achosion.

Ni adroddwyd ar ystadegau casgliadol gan fod y dadansoddiad disgrifiadol yn cynrychioli poblogaeth gyfan y plant mewn achosion gofal.

Cynhaliwyd dadansoddiadau ar wahân ar gyfer Cymru a Lloegr. Gwneir cymariaethau rhwng Cymru a Lloegr, lle bo hynny'n briodol.

Cynhaliwyd y dadansoddiad yn IBM SPSS Statistics v.26.

Cymeradwyaeth llywodraethu gwybodaeth

Adolygwyd cynnig y prosiect gan Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) SAIL ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'r panel hwn yn sicrhau bod gwaith yn cydymffurfio ag egwyddorion Llywodraethu Gwybodaeth ac yn ddefnydd priodol o ddata er budd y cyhoedd. Mae'r IGRP yn cynnwys cynrychiolwyr cyrff proffesiynol a rheoleiddiol, darparwyr data a'r cyhoedd. Rhoddodd yr IGRP gymeradwyaeth ar gyfer y prosiect o dan brosiect SAIL 0929. Rhoddodd Cafcass a Cafcass Cymru, sef perchennog y data, gymeradwyaeth i ddefnyddio'r data ar gyfer y prosiect hwn hefyd. Ystyriodd yr asiantaeth werth yr astudiaeth o ran budd cyhoeddus, buddion i'r asiantaeth ei hun, yn ogystal â safonau cyffredinol ar gyfer defnyddio data gweinyddol yn ddiogel.

Rheoli datgelu ystadegol

Caiiff rheoli datgelu ystadegol ei gymhwyso i allbynnau sy'n defnyddio data gweinyddol er mwyn atal adnabod unigolion yn y data, a rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol yn ymwneud â'r unigolion hyn. Mae hyn yn cynnwys cuddio gwybodaeth mewn tablau lle mae cyfrifiadau'n fach neu le y gallai cyfuniad y data a ddatgelir arwain at adnabod unigolyn. Yn yr adroddiad hwn, cuddiwyd niferoedd a oedd yn fwy na sero ond yn llai na phump, yn unol â phrosesau rheoli datgelu ystadegau SAIL. Cyfrifwyd canrannau yn ôl y cyfrifiadau a oedd ar gael yn unig.

Atodiad B: Tablau data ychwanegol

Tabl B.1: Plant sy’n destun achosion gofal a.31, yn ôl categori oedran un flwyddyn, fesul blwyddyn, Lloegr

Oedran (blyny- ddoedd)	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	Cyfanswm
Dan 1	5,039 [29.5%]	5,521 [29.8%]	5,108 [28.2%]	5,098 [26.6%]	5,368 [24.8%]	5,843 [23.5%]	5,926 [24.0%]	5,860 [24.9%]	5,717 [25.7%]	49,480 [26.1%]
1	1,501 [8.8%]	1,560 [8.4%]	1,504 [8.3%]	1,529 [8.0%]	1,614 [7.5%]	1,791 [7.2%]	1,703 [6.9%]	1,631 [6.9%]	1,554 [7.0%]	14,387 [7.6%]
2	1377 [8.1%]	1342 [7.2%]	1293 [7.1%]	1401 [7.3%]	1555 [7.2%]	1618 [6.5%]	1544 [6.3%]	1,412 [6.0%]	1,347 [6.1%]	12,889 [6.8%]
3	1193 [7.0%]	1234 [6.7%]	1178 [6.5%]	1206 [6.3%]	1350 [6.2%]	1460 [5.9%]	1410 [5.7%]	1,362 [5.8%]	1,282 [5.8%]	11,675 [6.1%]
4	1003 [5.9%]	1176 [6.4%]	1120 [6.2%]	1153 [6.0%]	1190 [5.5%]	1393 [5.6%]	1,330 [5.4%]	1,261 [5.4%]	1,179 [5.3%]	10,805 [5.87%]
5	874 [5.1%]	949 [5.1%]	964 [5.3%]	1,102 [5.8%]	1,257 [5.8%]	1,354 [5.5%]	1,299 [5.3%]	1,225 [5.2%]	1,100 [4.9%]	10,124 [5.3%]
6	852 [5.0%]	931 [5.0%]	934 [5.1%]	1,012 [5.3%]	1,139 [5.3%]	1,298 [5.2%]	1,298 [5.3%]	1,154 [4.9%]	1,119 [5.0%]	9,737 [5.1%]
7	787 [4.6%]	857 [4.6%]	844 [4.7%]	913 [4.8%]	1,092 [5.0%]	1,161 [4.7%]	1,180 [4.8%]	1,087 [4.6%]	1,024 [4.6%]	8,945 [4.7%]
8	741 [4.3%]	773 [4.2%]	812 [4.5%]	929 [4.9%]	1,024 [4.7%]	1,152 [4.6%]	1,131 [4.6%]	1,144 [4.9%]	990 [4.4%]	8,696 [4.6%]
9	633 [3.7%]	713 [3.9%]	741 [4.1%]	793 [4.1%]	987 [4.6%]	1,168 [4.7%]	1,168 [4.7%]	1,081 [4.6%]	938 [4.2%]	8,222 [4.3%]

Oedran (blyny- ddoedd)	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	Cyfanswm
10	588 [3.4%]	638 [3.4%]	699 [3.9%]	777 [4.1%]	846 [3.9%]	1,000 [4.0%]	1,031 [4.2%]	1,019 [4.3%]	942 [4.2%]	7,540 [4.0%]
11	579 [3.4%]	608 [3.3%]	609 [3.4%]	693 [3.6%]	829 [3.8%]	997 [4.0%]	986 [4.0%]	975 [4.1%]	937 [4.2%]	7,213 [3.8%]
12	527 [3.1%]	589 [3.2%]	596 [3.3%]	623 [3.3%]	800 [3.7%]	996 [4.0%]	1,009 [4.1%]	1,010 [4.3%]	953 [4.3%]	7,103 [3.7%]
13	526 [3.1%]	546 [2.9%]	556 [3.1%]	604 [3.2%]	825 [3.8%]	1,034 [4.2%]	1,122 [4.5%]	1,037 [4.4%]	958 [4.3%]	7,208 [3.8%]
14	417 [2.4%]	525 [2.8%]	546 [3.0%]	629 [3.3%]	788 [3.6%]	1,051 [4.2%]	1,134 [4.6%]	1,023 [4.3%]	962 [4.3%]	7,075 [3.7%]
15	328 [1.9%]	409 [2.2%]	457 [2.5%]	454 [2.4%]	668 [3.1%]	1,048 [4.2%]	948 [3.8%]	866 [3.7%]	816 [3.7%]	5,994 [3.2%]
16	111 [0.6%]	134 [0.7%]	172 [0.9%]	220 [1.1%]	307 [1.4%]	427 [1.7%]	456 [1.8%]	390 [1.7%]	428 [1.9%]	2,645 [1.4%]
17	5 [0.0%]	7 [0.0%]	7 [0.0%]	14 [0.1%]	14 [0.1%]	26 [0.1%]	20 [0.1%]	19 [0.1%]	17 [0.1%]	129 [0.1%]
Cyfanswm	17,081 [100.0%]	18,512 [100.0%]	18,140 [100.0%]	19,150 [100.0%]	21,653 [100.0%]	24,817 [100.0%]	24,695 [100.0%]	23,556 [100.0%]	22,263 [100.0%]	189,867 [100.0%]

Table B.2: Plant sy'n destun achosion gofal a.31, yn ôl categori oedran un flwyddyn, fesul blwyddyn, Cymru

Oedran (blyny- ddoedd)	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	Cyfanswm
Dan 1	373 [31.2%]	385 [31.7%]	342 [32.5%]	371 [29.9%]	392 [29.0%]	471 [28.4%]	477 [28.8%]	459 [28.7%]	382 [27.8%]	3,652 [29.6%]
1	108 [9.0%]	97 [8.0%]	92 [8.7%]	100 [8.1%]	120 [8.9%]	125 [7.5%]	89 [5.4%]	114 [7.1%]	88 [6.4%]	933 [7.6%]
2	102 [8.5%]	105 [8.6%]	72 [6.8%]	87 [7.0%]	98 [7.2%]	96 [5.8%]	100 [6.0%]	100 [6.2%]	88 [6.4%]	848 [6.9%]
3	83 [7.0%]	87 [7.2%]	74 [7.0%]	78 [6.3%]	94 [6.9%]	108 [6.5%]	98 [5.9%]	86 [5.4%]	94 [6.9%]	802 [6.5%]
4	80 [6.7%]	71 [5.8%]	67 [6.4%]	61 [4.9%]	69 [5.1%]	88 [5.3%]	91 [5.5%]	77 [4.8%]	60 [4.4%]	664 [5.4%]
5	55 [4.6%]	74 [6.1%]	57 [5.4%]	70 [5.6%]	61 [4.5%]	89 [5.4%]	92 [5.6%]	84 [5.2%]	74 [5.4%]	656 [5.3%]
6	50 [4.2%]	59 [4.9%]	43 [4.1%]	64 [5.2%]	64 [4.7%]	80 [4.8%]	84 [5.1%]	83 [5.2%]	73 [5.3%]	600 [4.9%]
7	44 [3.7%]	47 [3.9%]	40 [3.8%]	53 [4.3%]	57 [4.2%]	61 [3.7%]	82 [5.0%]	70 [4.4%]	78 [5.7%]	532 [4.3%]
8	47 [3.9%]	50 [4.1%]	34 [3.2%]	54 [4.4%]	61 [4.5%]	79 [4.8%]	68 [4.1%]	66 [4.1%]	57 [4.2%]	516 [4.2%]
9	33 [2.8%]	55 [4.5%]	37 [3.5%]	62 [5.0%]	49 [3.6%]	63 [3.8%]	69 [4.2%]	67 [4.2%]	55 [4.0%]	490 [4.0%]
10	42 [3.5%]	24 [2.0%]	33 [3.1%]	40 [3.2%]	37 [2.7%]	65 [3.9%]	67 [4.0%]	68 [4.2%]	62 [4.5%]	438 [3.5%]
11	43 [3.6%]	38 [3.1%]	31 [2.9%]	47 [3.8%]	46 [3.4%]	55 [3.3%]	62 [3.7%]	60 [3.7%]	46 [3.4%]	428 [3.5%]
12	27 [2.3%]	30 [2.5%]	28 [2.7%]	35 [2.8%]	53 [3.9%]	68 [4.1%]	56 [3.4%]	46 [2.9%]	52 [3.8%]	395 [3.2%]
13	42 [3.5%]	36 [3.0%]	32 [3.0%]	38 [3.1%]	45 [3.3%]	70 [4.2%]	69 [4.2%]	76 [4.7%]	46 [3.4%]	454 [3.7%]

Plant hŷn a phobl ifanc mewn achosion gofal yng Nghymru a Lloegr

Oedran (blyny- ddoedd)	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	Cyfanswm
14	30 [2.5%]	29 [2.4%]	29 [2.8%]	42 [3.4%]	49 [3.6%]	62 [3.7%]	75 [4.5%]	67 [4.2%]	54 [3.9%]	437 [3.5%]
15	26 [2.2%]	20 [1.6%]	26 [2.5%]	22 [1.8%]	48 [3.5%]	57 [3.4%]	57 [3.4%]	59 [3.7%]	49 [3.6%]	364 [2.9%]
16–17	9 [0.8%]	7 [0.6%]	16 [1.5%]	16 [1.3%]	11 [0.8%]	21 [1.3%]	19 [1.2%]	20 [1.2%]	14 [1%]	133 [1.1%]
Cyfanswm	1,194 [100.0%]	1,214 [100.0%]	1,053 [100.0%]	1,240 [100.0%]	1,354 [100.0%]	1,658 [100.0%]	1,655 [100.0%]	1,602 [100.0%]	1,372 [100.0%]	12,342 [100.0%]

Tabl B.3: Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall yn nifer y glaslanciau sy'n destun achosion gofal a.31 yn ôl oedran, Lloegr

Oedran (blyny- ddoedd)	2011/12 –2012/13	2012/13– 2013/14	2013/14– 2014/15	2014/15 – 2015/16	2015/16 – 2016/17	2016/17 – 2017/18	2017/18 – 2018/19	2018/19 – 2019/20	Newid cyfartalog o un flwyddyn i'r llall
10	8.5%	9.6%	11.2%	8.9%	18.2%	3.1%	-1.2%	-7.6%	7.5%
11	5.0%	0.2%	13.8%	19.6%	20.3%	-1.1%	-1.1%	-3.9%	9.0%
12	11.8%	1.2%	4.5%	28.4%	24.5%	1.3%	0.1%	-5.6%	9.2%
13	3.8%	1.8%	8.6%	36.6%	25.3%	8.5%	-7.6%	-7.6%	10.7%
14	25.9%	4.0%	15.2%	25.3%	33.4%	7.9%	-9.8%	-6.0%	12.7%
15	24.7%	11.7%	-0.7%	47.1%	56.9%	-9.5%	-8.6%	-5.8%	15.5%
16	20.7%	28.4%	27.9%	39.5%	39.1%	6.8%	-14.5%	9.7%	21.6%
17	40.0%	0.0%	100.0%	0.0%	85.7%	-23.1%	-5.0%	-10.5%	20.7%
Cyfanswm	12.2%	5.4%	10.2%	26.5%	29.6%	1.9%	-5.5%	-5.1%	10.6%

Tabl B.4: Newid canrannol o un flwyddyn i'r llall yn nifer y glaslanciau sy'n destun achosion gofal a.31 yn ôl oedran, Cymru

Oedran (blyny- ddoedd)	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	Newid cyfartalog o un flwyddyn i'r llall
10	-42.9%	37.5%	21.2%	-7.5%	75.7%	3.1%	1.5%	-8.8%	10.0%
11	-11.6%	-18.4%	51.6%	-2.1%	19.6%	12.7%	-3.2%	-23.3%	3.1%
12	11.1%	-6.7%	25.0%	51.4%	28.3%	-17.6%	-17.9%	13.0%	10.8%
13	-14.3%	-11.1%	18.8%	18.4%	55.6%	-1.4%	10.1%	-39.5%	4.6%
14	-3.3%	0.0%	44.8%	16.7%	26.5%	21.0%	-10.7%	-19.4%	9.4%
15	-23.1%	30.0%	-15.4%	118.2%	18.8%	0.0%	3.5%	-16.9%	14.4%
16-17	-22.2%	128.6%	0.0%	-31.3%	90.9%	-9.5%	5.3%	-30.0%	16.5%
Cyfanswm	-16.0%	6.0%	23.1%	20.4%	37.7%	1.8%	-2.2%	-18.4%	6.5%

Tabl B.5: Cyfraddau mynychder, achosion gofal fesul 10,000 o laslanciau yn y boblogaeth, fesul rhanbarth, fesul blwyddyn, Lloegr

Rhanbarth	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	Cyfradd gyffredinol
Gogledd-ddwyrain	10.8	10.9	8.9	11.2	16.6	25.2	22.9	25.2	26.0	14.3
Gogledd-orllewin	7.3	8.7	9.8	11.3	12.3	17.2	17.7	15.6	14.6	10.3
Swydd Efrog a Humber	6.2	7.2	6.7	8.1	10.7	14.0	14.7	13.6	13.5	8.7
Dwyrain y Canolbarth	5.2	5.2	6.0	7.2	10.2	12.0	11.7	10.8	10.6	7.2
Gorllewin y Canolbarth	5.4	7.9	7.8	7.5	8.3	11.0	13.2	12.3	10.4	7.7
Dwyrain	5.0	5.3	6.0	6.4	8.1	10.7	10.2	8.8	6.9	6.4
LLundain	7.0	8.1	8.9	9.2	10.7	14.8	14.3	12.5	11.1	9.3
De-ddwyr	5.3	4.9	5.7	6.4	9.0	10.3	11.0	10.2	9.5	6.7
De-orllewi	5.3	6.7	7.3	7.9	11.8	11.8	10.5	11.0	11.1	7.6
Cyfaswm (Lloegr)	6.1	7.0	7.4	8.2	10.4	13.4	13.5	12.5	11.6	8.4

Tabl B.6: Cyfraddau mynychder, achosion gofal fesul 10,000 o laslanciau yn y boblogaeth, fesul ardal DFJ, fesul blwyddyn, Cymru

Ardal	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	Cyfaswm
Caerdydd a De-ddwyrain Cymru	9.9	6.2	7.1	12.9	13.4	20.2	19.2	16.5	13.9	13.2
Gogledd Cymru	4.4	4.5	6.7	5.9	12.5	16.1	17.0	15.7	14.0	10.7
Abertawe a De-orllewin Cymru	6.5	8.2	6.5	4.9	5.4	6.0	7.5	10.2	6.4	6.8
Cyfanswm	7.5	6.5	6.8	8.7	10.5	14.6	14.8	14.2	11.5	10.5

Appendix C: Data col

Tabl C.1: Lefel y data coll yn ôl blwyddyn dechrau'r achos, Lloegr (pob oedran)

	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Nifer y cofnodion	17,253	18,620	18,203	19,259	21,759	24,903	24,787	23,643	22,371
Oedran y plentyn	1.0%	>1%	>1%	>1%	>1%	>1%	>1%	>1%	>1%
Rhywedd y plentyn	>1%	>1%	>1%	>1%	>1%	>1%	>1%	>1%	>1%
Awdurdod lleol	>1%	0	0	>1%	>1%	0	>1%	>1%	>1%

Table C.2: Lefel y data coll yn ôl blwyddyn dechrau'r achos, Cymru (pob oedran)

	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Nifer y cofnodion	1,213	1,222	1,055	1,241	1,356	1,659	1,665	1,647	1,425
Oedran y plentyn	1.4%	>1%	>1%	>1%	>1%	>1%	>1%	>1%	>1%
Rhywedd y plentyn	>1%	0	0	0	0	0	>1%	2.5%	3.2%
Awdurdod lleol	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Table C.3: Lefel y data coll yn ôl y flwyddyn y daeth yr achos i ben, Lloegr (glaslanciau yn unig)

	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Nifer y cofnodion	3,839	4,253	3,757	4,529	6,094	6,366	6,170	5,658
Gorchymyn cyfreithiol	>1%	>1%	>1%	>1%	>1%	>1%	>1%	>1%
Hyd yr achos	>1%	>1%	>1%	0	>1%	>1%	>1%	0

Table C.4: Lefel y data coll yn ôl y flwyddyn y daeth yr achos i ben, Cymru (glaslanciau yn unig)

	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Nifer y cofnodion	200	235	238	280	335	381	355	285
Gorchymyn cyfreithiol	19.0%	3.8%	12.6%	10.4%	11.3%	8.1%	11.5%	14.7%

Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield

Nod Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield (ACT Nuffield) yw cefnogi'r penderfyniadau gorau posibl i blant drwy wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth ymchwil yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Trwy gwmpasu cyfraith gyhoeddus a phreifat, mae ACT Nuffield yn darparu data ac ymchwil hygyrch i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn llysoedd teulu.

Sefydlwyd ACT Nuffield gan Sefydliad Nuffield, sef ymddiriedolaeth elusenol annibynnol sydd â chenhadaeth i wella lles cymdeithasol. Mae'r Sefydliad yn ariannu ymchwil sy'n llywio polisi cymdeithasol, a hynny ym meysydd addysg, lles a chyfiawnder yn bennaf. Mae hefyd yn ariannu rhaglenni myfyrwyr er mwyn i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a hyder mewn dulliau meintiol a gwyddonol. Sefydliad Nuffield yw sylfaenydd a chyd-gyllidwr Sefydliad Ada Lovelace a Chyngor Biofoeseg Nuffield.

Y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol

Mae'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol yn gydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe, gyda Cafcass a Cafcass Cymru yn rhanddeiliaid annatod. Caiff ei hariannu gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Banc Data SAIL

Mae data Cafcass [Lloegr] a Cafcass Cymru a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon ar gael o'r Banc Data Cyswllt Gwybodaeth Ddiennw Ddiogel (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe, Abertawe, y DU, sy'n rhan o'r seilwaith ymchwil cofnodion e-iechyd cenedlaethol i Gymru. Mae'n rhaid i bob cynnig i ddefnyddio data SAIL gael ei adolygu a'i gymeradwyo gan Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) SAIL. Pan roddir mynediad, fe'i ceir trwy hafan ddiogel sy'n diogelu preifatrwydd a system mynediad o bell, y cyfeirir ati fel Porth SAIL. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyrchu data ddilyn canllawiau'r broses ymgeisio sydd ar gael yn: www.saildatabank.com/application-process